"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1879. [RHIF 71.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Gosodiad o Egwyddorion Undodiaeth Crist'nogol	241
Nodynau Hynafiaethol	245
Myfyrwyr Prif Ysgolion Ysgotland	250
Cyprus	251
Y Toriaid ac Arian y Wlad	254
Cymdeithas Rhyddhad Crefydd	255
Marwolaeth y Dywysoges Alice	257
Adolygiad	258
Gweithiau Duw a gweithiau Dyn	259
Nid yw geiriau mwyn yn costio dim llawer	259
Manion	260
Hanesion	261
Marwgofion	262
Barddoniaeth	263

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] IONAWR, 1879. [Rhif. 71.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

GOSODIAD O EGWYDDORION UNDODIAETH CRIST'NOGOL.

Gan James Hopgood.

Duw.—

Nid oes, yn ffodus, le i amheuaeth neu betrusder mewn dywedyd mai yr athrawiaeth o Undod, Undod hollol Duw a Thad pawb oll, ydyw sylfaen grefyddol yr Undodwr Cristionogol. Heb gynnyg at y gorchwyl anmhossibl o bennodi natur yspryd, llawer llai yr yspryd mawr a addolir fel Duw, y mae heb un petrusdod yn credu ynddo fel hanfod, yn bennodol a phenderfynol, hollol a phersonol, ac y mae yn gwrthod gyda'r un diamheuaeth bob gosodiadau, awgrymiadau, neu dybiadau sydd yn gosod allan y Bôd hwnw fel Bôd amrywiog, neu sydd yn unrhyw ffordd yn tueddu i dywyllu y meddylddrychau goreu a chaeth o bersonoliaeth ac hanfodiaeth neillduol mae ei feddwl yn alluog i ffurfio, a chan weled fod y mwyafrif mawr o Gristionogion wedi mabwysiadu a chydnabod golygiadau ac ymadroddion sydd yn gwrthryfela yn erbyn y gwirionedd sylfaenol hwn, y mae yr Undodwr, er mwyn gwahaniaeth yn ogystal â gwrthdystiad parhaus, yn mabwysiadu y blaenddodiad (*prefix*) "Undodwr," i'w enw cyffredin o Gristion. Y mae yr Undodwr Cristionogol yn credu mai Duw y Tad Hollalluog ydyw gwneuthurwr y Nefoedd a'r Ddaear, a phob peth gweledig ac anweledig, ac mai iddo Ef ac iddo Ef yn unig, y mae pob addoliad i gael ei gynnyg, a phob gweddi i gael ei hanerch, ac y mae yn teimlo na lefarwyd geiriau mwy cyflawn o ystyr erioed, na'r rhai a lefarwyd gan Iesu Grist pan ddywedai, "Yspryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant Ef, addoli mewn yspryd a gwirionedd." Y mae yn cymharu ei berthynas rhwng dyn a'i Wneuthurwr i'r berthynas rhwng tad a'i blentyn yn ei hystyr buraf, mwyaf perffaith, a'i amgyffrediad uwchaf, ac y mae hyn, yn naturiol, yn cynnwys y medd-

ylddrych pellach o frawdoliaeth dynolryw. Y mae yr athrawiaeth o Dadoldeb Duw a Brawdoldeb dyn gyda'i holl gyfrifoldeb a'i chanlyniadau, yr wyf yn credu, yn cael ei derbyn yn gyffredinol gan bawb Cristionogion Undodaidd.

CYDWYBOD.—

Y mae yr Undodwr Cristionogol yn credu fod Duw wedi rhoddi i bob dyn, enaid gwahanol oddiwrth ei gorff, a galluog o fodolaeth wedi dadfeiliad y corff; mai trwy offerynoliaeth ei enaid y mae dyn yn cael ei ddwyn i gymmundeb â Duw, ac yn ymwybodol pa un a yw ei gyflawniadau, neu nad ydynt, yn debygol o'i foddio Ef; fod ei gydwybod o ganlyniad, fel y dylai fod, ei brif arweinydd.

IESU GRIST.

Y mae yr Undodwr Cristionogol yn credu fod Duw wedi gwneyd ei Ewyllys yn adnabyddus i ddynion mewn amryw ffyrdd heblaw trwy offerynoliaeth cydwybod; trwy ddysgawdwyr Cristionogol, y rhai ydynt o bryd i bryd wedi goleuo y byd trwy eu hathrawiaethau a'u hesamplau; ac yn mhlith yr holl ddysgawdwyr sydd wedi ymddangos yn y byd, fod Iesu Grist yn sefyll yn y lle blaenaf, ac uwchaf,—y mae gan hyny yn mabwysiadu enw ei Ddysgawdwr Mawr, yn eistedd wrth ei draed ac yn dysgu ganddo. Y mae y wybodaeth y mae yn gael mewn perthynas i addysgiadau Iesu Grist yn deilliaw oddiwrth yr Efengylau, ac y mae yn cael fod yr addysgiadau yma mewn cydgordiad â theimladau goreu a mwyaf santaidd ei natur, a'r rhai y mae yn gredu y mae wedi eu derbyn fel yn dyfod oddiwrth Dduw, fel y mae yn eu derbyn fel yn dyfod oddiwrth yr un ffynnon ac mewn canlyniad i hyny, y mae yn eu gwerthfawrogi; y mae yn teimlo fod yr addysgiadau yma o angenrheidrwydd yn ei wneuthur yn well plentyn i Dduw, yn well brawd i ddyn, ac yn ddyn mwy dedwydd ei hunan, ac y mae yn eu derbyn yn naturiol (fel y meddyliaf fi) fel addysgiadau Duw, ac y mae yn teimlo nad yw naill ai yn fyrbwylldra neu ffolineb i ymddiried yn ei argyhoeddiad mewnol yn y mater yma, a chan ymddiried felly, gall ddywedyd mewn perthynas i Grist, "Rabbi, ni a wyddom mai dysgawdwr oddiwrth Dduw ydwyt ti." Wrth gwrs, yn ei waith yn ymdrechu cael allan beth oedd gwir addysgiadau'r Iesu, nid yw yr Undodwr Cristionogol ddim yn edrych dros ben amgylchiadau y mater, y mae yn gwybod mai hanesion syml ydyw yr Efengylau, fod eu hawduraeth, eu dechreuad, amseriad, a phethau ereill tu allan iddynt, i raddau yn aneglur—y mae yn derbyn fel ffeithiau eu bod wedi cael eu hysgrifenu gan bersonau gwahanol, ar wahanol amserau, mewn gwahanol ieithoedd, a gwahanol amgylchiadau wedi eu sylfaenu, mwyaf tebygol, mwy neu lai ar ryw ysgrifen-brawf yn gyffredin o'r oll, ac wedi eu hamrywio gan fanylion ffeithiau wedi eu cael o amryw ffynnonau, a bod yr hanesion yma, dros fwy na mil o flynyddau, wedi cael eu bytholi a'u trosglwyddo trwy lawer o gopiau ysgrifenedig â llaw, wedi eu cyfieithu, a'u hadgyfieithu i, ac oddiwrth wahanol ieithoedd, gan ddynion o wahanol olygiadau crefyddol a galluoedd dealldwriaethol; y mae yn gwybod gan hyny, fod yn rhaid gosod y deall ar waith i ddarllen yr Efengylau

yma, ac y mae yn teimlo fod ei ymchwiliad gofalus yn ddyledswydd foesol, yn gystal ag yn bwnc o ddyddordeb mawr a dwfn. Oddiwrth yr ymchwiliadau yma y mae yn ffurfio ei farn ei hun yn nghylch beth mewn gwirionedd oedd addysgiadau yr Athraw, ac y mae yn ymfoddloni i'w gydgreaduriaid wneyd yr un peth, y mae yn gwybod gyda sicrwydd fel na all un dyn yn herwydd ei gyfansoddiad weled pob peth yn yr un olwg yn union, yr un fath â dynion ereill; felly y mae yn bod gyda golwg ar y meddwl, ac y mae efe, o ganlyniad, yn barod i gydnabod a chaniatau amrywiaethau mawrion mewn opiniwn; etto i gyd, fel y mae yn teimlo argyhoeddiad dwfn na all dim lle rhesymol fod i amheu, ac i gamsynied ystyr gyffredinol yr addysgiadau yma, felly, os y ceir allan yn yr hanes hanesyddol ryw osodiad nad yw mewn cyssondeb gydag ystyr gyffredin, ac amcan yr athrawiaethau pur a pherffaith a ddysgwyd gan Grist, nid yw yn teimlo un petrusdod i wrthod neu gyfaddasu y cyfryw, gan ystyried ei fod yn beth mwy rhesymol i briodoli y gosodiad gwrthwynebol i un neu lawer o'r ffynnonau o gyfeiliornad clymedig wrth yr hanes, na phriodoli ffolineb neu annghyssondeb i'r dysgawdwr—ond tra y mae yn arferyd ei hawl i farnu barn bersonol, nid yw yn annghofio mai i'r graddau y mae ei ryddid i'r graddau hyny hefyd y mae ei gyfrifoldeb; ac i fod y wyliadwriaeth fwyaf yn angenrheidiol rhag ofn i'w ryddid gael ei niweidio a'i ddarostwng i ben rhyddid, neu ddiofalwch, ac yna bod yn niweidiol iddo ef ei hunan ac efallai i ereill.

Y mae yr un ysprydymchwiliad a rhyddid yn cael ei gydnabod gan yr Undodwr parth natur anianyddol ac ysprydol yr Iesu: y mae yn gwybod fod y testynau yma o'r pwys mwyaf, a dyddordeb i Gristionogion meddylgar, y bydd iddynt gael eu trafod gyda mwy neu lai o bwyll a gwybodaeth, ac y bydd y casgliadau y deuir o hyd iddynt, fel math o gwrs, yn amrywiog i raddau mwy neu lai; ond nid yw yr amrywiaeth yma yn achosi un pryder iddo ef, oblegyd (fel ydym wedi gweled) ei fod yn derbyn addysgiadau grasol yr Iesu ar dir arall a mwy dyogel na natur neu sefyllfa y Dysgawdwr, ac y mae yn teimlo, bydded i'r casgliadau y deuir iddynt parth natur ac helyntion gorphenol yr Iesu mor amrywiol ag sydd bossibl iddynt fod, ni all ei addysgiadau parth Bywyd, Anfarwoldeb, Atebolrwydd Dyfodol, gael eu heffeithio trwy hyny, oblegyd gwyr, os gwir o gwbl, eu bod yn wirioneddau (er wedi eu cuddio o olwg y byd), pa un a ddysgodd yr Iesu hwynt neu na ddo, felly, nid yw natur ac helyntion gorphenol yr Iesu ond megys pynciau agored i bawb—rhaid yw i bob dyn ffurfio neu dynu ei gasgliad ei hunan yn ol ei allu a'r goleuni sydd wedi cael ei roddi iddo, a chaniatau i'w gymmydog yr un rhyddid i wneyd yr un peth. Gyda golwg ar gymmeriad personol Iesu Grist, mae y pwnc yn gwisgo agwedd wahanol, oblegyd y mae yr Undodwr Cristionogol, yn gweled yn yr Iesu yr Esampl (mor bell ag yr ä esampl) fwyaf berffaith a chyfan—un y gellir ei efelychu gan ddynolryw ac yn werthfawr iddynt i'r graddau ydynt yn ei efelychu. "Aeth ef o amgylch gan wneuthur daioni;" ar gost aberthu yn gyfangwbl bob cyssur personol—yn hyn y mae ei deilyngdod—yn hyn y mae yn esampl i ni.

"Dos a gwna dithau yr un modd," ydyw y cyfarwyddyd sydd gan ddynion i'w ganlyn. I symio i fyny, creda yr Undodwr Cristionogol fod yr Iesu, trwy ei Efengyl, wedi dwyn Bywyd ac Anfarwoldeb i'r goleuni, a'i fod trwy ei fywyd wedi gosod esampl ellir ei hefelychu gan y sawl sydd yn galw eu hunain yn ddysgyblion gwirioneddol iddo Ef.

Bywyd Dyfodol.—Oddiwrth yr hyn sydd wedi cael ei ddweyd yn barod, prin angenrheidiol yw dweyd fod yr Undodwr Cristionogol yn credu mewn *sefyllfa ddyfodol*, mewn cyfrifoldeb dyn i Dduw am ei holl gyflawniadau yn y bywyd presenol, ac o ganlyniad mewn cyflwr dyfodol o at-daliad a gwobrwy. Nid yw yn rhyfygu dyffinio natur na helaethder y cyfryw—o un peth y mae yn sicr, sef, fel y mae pechod yn haeddu, felly y bydd i ddwyn cosp; y bydd pob cosp a weinyddir yn un deilwng neu haeddianol, ac y bydd iddi gael ei gweinyddu, nid mewn llid, ond mewn cariad a chyda golwg ar les y troseddwr yn y pen draw, y mae prawf dyddiol yn dangos iddo Ef fod dynion yn gwahaniaethu yn eu hymddygiad oddiwrth eu gilydd, fod rhai yn llawer gwell nag ereill. Rhaid, gan hyny, fod Duw (fel y mae ef yn teimlo yn sicr) yn cael ei foddloni yn fwy gan rai na chan ereill, ac ymddengys yr athrawiaeth o gosp a gwobrwy fel o angenrheidrwydd oddiwrth hyny; ond er hyny, y mae yn glynu yn dyn wrth yr argyhoeddiad, mai "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y mae yr Arglwydd yn tosturio wrth y rhai sydd yn ei ofni Ef." "Canys y sawl mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mab a dderbynio." Y mae yn amlwg ddigon fod yr ystyriaethau yma yn cau allan y meddylddrych o gosp dragywyddol.

Y Beibl. Gyda'r golygiadau mwyaf ëang rhesymol yma, y rhai sydd yn dyfod yn fwy cyffredin mewn perthynas i'r Beibl, y mae yr Undodiaid Cristionogol yn gyffredin yn cytuno; ond y maent, serch hyny, gyda golwg ar bynciau o fath hwn, fel pob peth arall, yn honi eu hawl i farn bersonol. Y maent yn ystyried fel peth anmhrisiadwy werthfawr, ystordy diyspydd ysprydol o drysorau; yn cynnwys fel ag y mae, y mater mwyaf amrywiog, traddodiad, hanes leol, bywgraffiadau, salmau santaidd, dadganiadau crefyddol yn gosod allan y teimlad niwlog cyntaf o'r enaid ar ol Duw, yn gystal a'r meddylddrychau mwyaf dyrchafedig o hono ef a roddwyd erioed i ddyn, gyda llawer o fanylion yn ddyddorol fel hanes o ddadblygiad crefyddol a chynnydd anianyddol a gwleidiadol y bobl Iuddewig, yr hanes Gristionogol, ac yn fwy diweddar ddadblygiad crefyddol o'r meddylddrychau wedi eu tynu oddiwrth ddysgeidiaeth Crist, y mae yn amlwg ddigon fod amrywiol ranau, nid yn unig o werth cymharol, ond y maent yn wahanol werthfawr i wahanol feddyliau, ac hyd y nod i'r un meddwl mewn gwahanol agweddiadau. Gyda'i holl gymhwysderau, tra yn gwrthod y frawddeg sydd yn cael ei hadrodd mor fynych "yn nghylch gair ysprydoledig Duw" yn yr ystyr ag y mae yn cael ei arferyd fynychaf efallai, y mae y Beibl i'r Undodwr Cristionogol yn Llyfr y Llyfrau, yn deilwng ac yn gofyn yr astudiaeth fwyaf ofalus a pharchus, ac yn addalu yn dda am y fath astudiaeth.

Wrth ddiweddu, dymunwn sylwi nad wyf fi ddim wedi amcanu i fanylu beth nad yw y Cristion Undodaidd yn gredu, ac nid wyf wedi dadleu yn nghylch haerdybiau eglwysi ereill, nid fy amcan i oedd gwneuthur felly. Nid wyf ond yn unig wedi gosod allan oreu y gallwn yn ol fy ngwybodaeth a'm crediniaeth, mewn ystyr lydan a chyffredin y synwyr, yn yr hwn mae yr Undodwr Cristionogol yn derbyn fel safon ei amgyffrediadau crefyddol; pa mor bell wyf wedi bod yn llwyddiannus gyda golwg ar hyny o beth, sydd yn aros i gael ei weled.

Z.

NODYNAU HYNAFIAETHOL.

(*Parhad o tudalen* 20.)

Mae y Cymry yn ddiarebol am eu hoffder o luosogrwydd o bregethau. Gwnaethpwyd cais unwaith i ymfoddloni ar ddim ond un bregeth ar adeg y Cwrdd Chwarter, a dysgwylid dwyn hyny i arferiad cyffredin; ond nid oedd hyny yn ateb chwaeth y bobl. "Rhagfyr 31, 1818," meddai J. J. (John James), yn y *Monthly Repos.*, "cynnaliwyd y Cwrdd Chwarter yn nghapel y Bedyddwyr Undodaidd yn Abertawe. Yr oedd naw o bregethwyr yn bresenol, ac ni phregethodd *ond un*;" peth na welodd J. J. mo'i gyffelyb ond un waith o'r blaen, a'r tro hwnw ni ellid oddiwrth hyny, gan nad oedd ond un gweinidog yn bresenol, ond yn Abertawe dewisiad oedd. "Pa un," meddai J.J., "a yw chwaeth Undodiaid Cymru wedi newid cymmaint fel ag i gael ond un bregeth yn y dyfodol yn eu cyfarfodydd chwarterol, amser yn unig all ddangos."

Dygwyd y Dr. Thomas Llewelyn, gwr a anwyd yn Mhenalltau Isaf, yn agos i Hengoed, tua 1720, i fyny yn deiliwr, ac arferai weithio o dŷ i dŷ yn ifanc, a chaffai am hyny bedair ceiniog y dydd, cyflog bychan iawn yn ein golwg ni yn yr oes hon. Yr oedd Taliesin ab Iolo yn dywedyd ei fod yn ddisgynydd yn y bedwaredd âch o'r hen fardd, Tomos Llewelyn o'r Rhigos, yr hwn yn ol Iolo a gyfieithodd y Beibl, neu o leiaf ran o hono yn 1540, a'r hwn oedd, meddai Iolo, yn dad, neu ddechreuydd Ymneillduaeth yn Nghymru, ac a fu yn foddion i sefydlu yr achos yn Mlaencanaid. Y Dr. Ll. a fu â llaw fawr i gael rhagor o Feiblau i Gymru. Bu farw Awst, 1793, a chladdwyd ef yn Bunhill Fields, yn Llundain, yn yr un bedd â Dr. Watts. (*Seren Gomer*, 1855.)

Pa berthynas oedd Joshua Thomas, Llanllieni, i Mr. Davis o Gastellhywel? Dywedir ei fod yn ewythr iddo, ond sut? ai brawd ei fam oedd? Ganwyd Joshua Thomas yn y Ty Hen, plwyf Caio, Chwefror 22, 1718, bu farw Awst 25, 1797. Efe oedd awdwr Hanes y Bedyddwyr. Yr oedd Timothy ei frawd, gweinidog Aberduar, ddwy flwydd yn ieuangach. Bu farw Timothy, 1768, yn 48 oed.

Ar y 5ed dydd o Chwefror, yn y flwyddyn 1631, sef y chweched o deyrnasiad Charles y cyntaf, y glaniodd Roger Williams yn Nantas-

ket, yn yr America. Enw y llong oedd Lyon, a'r capten William Pierce. Wedi ychydig o flynyddoedd, darfu iddo goleddu syniad y *Bedyddwyr*, ac mae yn dra thebygol mai efe oedd y cyntaf i bregethu yn erbyn bedydd babanod ac i sefydlu achos Bedyddiol yn y byd newydd. Dywed Dr. Gordon am dano:—"Mae Roger Williams yn gyfiawn yn hawlio yr anrhydedd o fod y deddfroddwr cyntaf yn y byd, a ddarfu mewn oesoedd diweddar, ragddarparu yn gyflawn ac yn effeithiol dros sefydliad rhyddid cydwybod, rhydd, cyflawn, a pherffaith." Dywedir yn *Evans's Life of Richards of Lynn*, p. 343, ar dystiolaeth ei lythyr ei hunan, iddo gael ei eni 1599, a thybir iddo farw rywbryd rhwng Ionawr 16 a Mai 10, 1683. Yn Ngeiriadur Bywgraffyddol Josiah Thomas Jones, dywedir iddo gael ei eni yn Llansawel, yn Sir Gaerfyrddin. Fe ddengys a ganlyn allan o *Seren Gomer*, 1856, fod gwall yn gorphwys yn rhywle. Yn ol cof-ysgrifau Prifysgol Rhydychain, ganwyd ef yn 1606, ac enw ei dad oedd William Williams, o Gynwyl Caio. Fel hyn mae yr *entry*:—"Rodericus Williams, filius Gulielmi Williams, de Conwelgaio, Pleb. an. nat. 18, entered at Jesus College, April 30, 1624." Mae Caio a Llansawel, mae yn debyg, yn ddau blwyf yn cydio â'u gilydd. Dywed y *Seren* yn mhellach fod hynafiaid R. W. "yn byw er ys amryw genedlaethau ar eu tir eu hunain, mewn tyddyn o'r enw Maestroiddyn."

Yn yr Ymofynydd am Mawrth, tud. 17, darfu i mi ddywedyd mai "Boke of Chesse" Caxton oedd y llyfr cyntaf a argraffwyd yn Lloegr. Yr wyf yn awr yn meddwl fod yma gamgymmeriad. Argraffwyd y "Boke of Chesse" yn 1477, ond fe ddywedir fod llyfr wedi ei argraffu yn Oxford ac yn dwyn y *date* 1468. Mae y llyfr hwnw yn awr yn y "Public Library" yn Cambridge. Enw yr argraffydd yn Oxford oedd Corsellis. Gweler *Correspondence* yn y *World of Wonders*, p. 83.

Fe ddywedir mai y Parch. Thomas Morgan, Blaengwrach, oedd y cyntaf i ddefnyddio y frech ddodi, neu frech y fuwch (*cow-pock*), yn Morganwg, ac iddo ei gosod ar 101 o blant yn 1784. Gweler *Geir. Bywg.* J. T. Jones, II., 295. Gweler hanes ei fywyd yn Yr Ymofynydd, 1859, tdd. 113, 131. Ganwyd ef 1737, bu farw 1813, a chladdwyd ef yn Gellionen, lle mae maen hardd o fynor gwyn, er coffadwriaeth iddo. Tebyg yw fod ychydig o gamgymmeriad yma. Defnyddiodd y *frech ddodi* o bossibl, ond nid yw yn canlyn mai brech y fuwch oedd hono. Yr oedd Lady Mary Wortley Montague wedi gosod y frech ddodi ar ei bachgen bach mor gynnar â Mawrth 18, 1718, ond y frech ddodi hon oedd yr hyn a adwaenir fel *inoculation*, ac nid *vaccination*, brech y fuwch, ac y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt. Ni wnaeth Dr. Jenner ei ddarganfyddiad o frech y fuwch yn hyspys hyd 1796. Aeth y dull cyntaf o osod y frech, sef *inoculation*, allan o arferiad ar ol hyny, ac yn 1840 pasiwyd deddf yn gwahardd y dull hwnw.

Yr wyf wedi clywed, a charwn wybod pa wir sydd ynddo, fod y Parch. Dafydd Llwyd yn arfer darllen yr un bregeth am bedwar dydd Sul o'r bron, a'r un weddi am flwyddyn gyfan, a'r canlyniad o hyny oedd fod y rhai mwyaf deallus o'u wrandawyr ar ddiwedd y cyfryw amser wedi trysori yn eu cof yn agos os nid yr oll. Yr oedd

hyny, wrth bob tebyg, yn fwy nag y mae llawer o wrandawyr yn alluog i drysori o wybodaeth yn eu cof mewn deng mlynedd yn awr, pan y mae manteision gwybodaeth yn llawer mwy.

Mae yn anhawdd dywedyd pa mor foreu y meddyliwyd am gyhoeddiad misol i'r Undodiaid. Fel y gwyr ddarllenwyr Yr Ymofynydd, cychwynwyd cyhoeddiad chwarterol unwaith gan y Parch. Thomas Evans, Aberdar, ac ymddangosodd tri rhifyn. Yn y *Christian Reformer* am 1816, cawn y Parch. Richard Wright, yn awgrymu un i Gymru, dan yr enw "*The Cambrian Theological Reformer.*" Tua 1829, bu y Parchn. Dr. Charles Lloyd, John Jones, wedi hyny o Aberdar, a Mr. Rees Jones, Pwllffein, yn ystyried pa debygolrwydd oedd y gellid cynnal un. Yn *Seren Gomer* 1834, ceir rhyw W. Jones a J. Francis, Llanelli, yn awgrymu un.

Y mae hen weddel (chwedl) yn mhlith y Cymry yn cyssylltu eu hanes boreuol â Chaerdroia. O ba le y daeth yr hen weddel (*legend*) yma? Onid yw yn debyg fod rhywbeth o wir ynddi? Ac yn y fel yma, nid fod cyssylltiad uniongyrchol wedi bod rhwng y Cymry a Chaerdroia, ond anuniongyrchol. Dywed hanes fod y Rhufeiniaid wedi bod yn trigianu yn y wlad yma am ryw 400 mlynedd, ac yna iddynt ymadael. Yn awr, y mae yn ddigon tebyg i'r rhai mewn awdurdod o honynt ymadael tua dechreu'r bumed ganrif, ond y peth tebycaf yw i'r lluaws o honynt, y bobl gyffredin, aros ar ol, ac ymgymmysg â'r boblogaeth. Yn awr y mae pob tebygolrwydd fod cyssylltiad rhwng y Rhufeiniaid a Chaerdroia, ac o ganlyniad yr oedd cyssylltiad rhwng y bobl gymmysg yn Mhrydain â hwy yn yr un modd.

Chwedl arall gyffredin yn Nghymru a llawer man yn Lloegr yw fod ein prif lynoedd wedi bod un amser yn fanau lle'r oedd tai yn sefyll—tai ag ydynt yn bresenol yn ngwaelod y llyn. Dywedir weithiau (ond y mae hyny yn trethu gormod ar ein hygoeledd) fod y simleoedd ar brydiau yn y golwg, a bod llygaid mor dda gan rai ag i allu gweled mwg yn esgyn o honynt. Fodd bynag, onid oes bossibl fod hyn yn wir, fod tai wedi bod unwaith uwch wyneb y llynoedd yma, fel y gwyddys fod un amser uwch llawer o lynoedd y Cyfandir—tai wedi eu codi uwch y dwfr ac ychydig bellder oddiwrth y tir, er mwyn amddiffyniad oddiwrth anifeiliaid gwylltion ac oddiwrth ddynion gelyniaethus—tai o bossibl yn perthyn i amser cynhanesiol, cyn dyfod y Rhufeiniaid i'r wlad, a chyn fod haiarn yn adnabyddus feallai, pan yr oedd y trigolion yn byw i raddau helaeth ar bysgod ac yn gwneuthur eu hoffer awch o'r maen callestr neu o esgyrn pysgod.

Mae y Cymry wedi bod yn ymffrostio mai hwy oeddynt gynfrodorion yr Ynys yma; ond nid yw hyny yn debyg. Yr oedd y cynfrodorion yn annhebyg iawn i'r Cymry mewn llawer modd. Nid oeddynt yn debyg mor wareiddiedig; yr oeddynt yn llai o faint, ac yn wahanol iawn yn eu hymddangosiad. Yr oeddynt yn debycach i'r Esquimaux. Yr ydys wedi cael ysgerbydau dynion o'r fath mewn amryw ogofeydd yn yr ynysoedd yma, ac yn gymmysg â hwy esgyrn creaduriaid nad ydynt yn bodoli yn yr ynys yn awr, ac nad ydynt wedi bod yn bodoli o fewn y cyfnod hanesiol, nac o bossibl er ys amryw filoedd o flynyddoedd.

Yn fynych gofynir pa un oedd y iaith gyntaf; ac atebir gan un mai y Gymraeg oedd, gan un arall mai y Wyddelaeg oedd, a chan ereill enwir ieithoedd ereill drachefn, tra mewn gwirionedd nid oes y tebygolrwydd lleiaf ei bod yn un o'r ieithoedd sydd yn fyw yn awr—ddim hyd y nod yr Hebraeg, ac nid yw hi yn fyw. Mae pob iaith trwy ganrifoedd ei bodolaeth yn barhaus yn myned trwy gyfnewidiadau, ond y mae pob iaith wrth bob tebyg yn dwyn yn ei chyfansoddiad olion fwy neu lai o'i hanes trwy yr oll o'i thaith; megys y mae pob afon yn dwyn yn ei chyfansoddiad olion o'i holl hanes—olion o bob afon a ffrwd a ddylifodd iddi, ac olion o bob tir y dylifodd trwyddo, hyd ei hymarllwysiad yn y môr mawr. Y mae dylifiad ambell i afon yn twy tawel a didwrw na'i gilydd, a'i chyfnewidiadau felly yn llai, etto y mae pob afon yn myned dan gyfnewidiad parhaus. Yr un wedd y mae pob iaith yn cyfnewid yn barhaus—rhai ieithoedd yn cyfnewid fwy nâ'u gilydd, ond oll yn cyfnewid. Y mae Saesneg Chaucer yn annealladwy i'r rhan fwyaf o Saeson y dyddiau presenol, a Chymraeg Talhaiarn i'r rhan fwyaf o'r Cymry.

Onid gwir ddywedodd Mr. Hussey Vivian, A.S., yn Mhontypridd pwy ddydd, nad yw y Saeson yn Saeson pur—eu bod yn hanner Cymry? Pan ddaeth y Sacsoniaid yma yn yr hen amser ac y gorlifasant ein gwlad—gwrywod oeddynt yn benaf, milwyr wrth gwrs, ac heb wragedd. A phan yr ymsefydlasant yma, gyrasant o'u ffordd y rhan fwyaf o'r Cymry gwrywaidd, ond cymmerasant y menywod yn wragedd. Y mae gan hyny elfen Gymreig gref yn nghyfansoddiad y Sais, a'r cymmysgiad yma wrth bob tebyg sydd wedi ei wneuthur y cymmeriad ardderchog yw. Ceir fod llawer o'r geiriau Seisnig sydd o darddiad Cymreig yn perthyn i'r menywod yn neillduol—geiriau yn perthyn i'r aelwyd gartref, *daddy* (tad), *mammy* (mam), *baby* (baban); etto, *crockery* (crochan), *basket* (basged), *dainty* (dantaeth), *flummery* (llymry); ac etto, *garter* (gardys, gar), *button* (botwm), *gusset* (cwysed), *flannel* (gwlanen, gwlan), *gown* (gwn).

Tybiai Agricola* nad yr un pobl oedd y Siluriaid (trigolion Morganwg a Mynwy) a'r bobl a breswylient ranau ereill o'r wlad; a thynai y casgliad yma oddiwrth eu hymddangosiad. Mewn pryd a gwedd yr oeddynt dipyn yn dywyll, ac yr oedd eu gwallt yn gwrlog, yn debyg i drigolion Yspaen. Prin digon o brawf yw hyn eu bod yn ddisgynyddion oddiwrth drefedigaethwyr Iberaidd neu Yspaenaidd. Mae yn perthyn i iaith y Siluriaid ei nodweddion neillduol, a byddai yn ddyddorol gwybod o ba le y daeth y nodweddion yma. Maent yn hoff yn Morganwg a Mynwy o'r llythyrenau celyd, c, p, t, y rhai a ddefnyddir yn lle g, b, d; ond y maent yn gymmaint Celtiaid debygwn a neb yn yr ynys. Yn y llyfr cyntaf o'r "Epochs of English History,†" a elwir "Early England," dywedir—Yr oedd un llwyth annhebyg iawn i breswylwyr ereill Prydain mewn llawer ffordd. Nid oeddynt mor wamal; ond yr oeddynt yn bobl sefydlog iawn; gwisgent ddillad o liw tywyll, ac yr oedd

---

* Marsh's Manual of the English Language, p. 42.

† Mae y llyfrau bychain yma yn rhagorol iawn ac yn rhad iawn—yn wyth mewn nifer, y cyntaf yn 1s., a'r gweddill yn 9c. yr un.

eu gwallt a'u llygaid yn dywyll. Yr oeddynt yn byw yn y parthau a adnabyddir yn awr fel Deheudir Cymru, a gelwid hwy yn Siluriaid (tud. 4.) Nid oedd y Siluriaid yn perthyn i'r llwythau ereill, ond yn hytrach, feallai, i'r Basciaid a breswylient yn Yspaen a Deheubarth Ffrainc hyd y dydd hwn (tud. 12.)

Barn gyffredin haneswyr yn awr yw fod yr oll o Brydain yn cael ei phreswylio yn amser y goresgyniad Rhufeinig gan lwythau a lefarent wahanol ieithweddau (dialects) o'r Geltaeg; ac nad yw y Gaelaeg ei hunan ond amrywiaeth o'r un iaith. Dosparthir llefarwyr y gwahanol chwaer-ieithoedd yma dan yr enw Celtiaid, a rhenir y Celtiaid fel yma:

CELTIAID.

Y Gaeliaid:—1. Y Gwyddelod.	Cymry:—1. Y Cymry.
2. Gaeliaid Caledonia.	2. Pobl Cernyw.
3. Trigolion Ynys Manaw neu y Manx.	3. Llydawiaid.

Daeth y bobl yma i'r wlad yn dyrfaoedd ar wahanol amserau, neu fel y dywedir, yn donau o boblogaeth (*waves of population*); a'r naill don yn gyru'r don arall yn y blaen o hyd, a hithau drachefn yn cael ei gyru gan don yn dyfod ar ei hol. Digon tebyg fod y Gaeliaid, preswylwyr Iwerddon, yn mhlith y boreuaf o'r tonau, ac iddynt gael ei gyru drosodd, i wneuthur lle i'r tonau dilynol, tonau o bobl Gymreig. Hyn oedd barn Edward Lhwyd, a cheisiodd brofi hyny oddiwrth enwau lleol yn Neheudir Prydain. Dywedir yn Marsh (a grybwyllwyd yn barod) nad yw wedi profi ei boint, nad oes ond y geiriau *ouse*, *axe*, *exe*, yn rhoddi un math o liw i'w osodiad. Mae y geiriau yma yn deilliaw oddiwrth y gair Gwyddelig *uisgi* (dwfr). Ond ymddengys i mi nad yw y rhai hyn yr unig rai, tebyg fod llawer yn ychwaneg ond chwilio am danynt. Yn Ystradfellte y mae Maen-*lia*, ystyr *lia* yn y Wyddelaeg yw maen. Nid oes dau faen, un yn fwy a'r llall yn llai. Gwartheg *blith*ion, trin *blith*, rhaid myned i'r Iwerddon am esboniad, *blithuin* yw y gair yno am *godro*. Abercwm*boy*, ger Aberdar, *boy* yn y Wyddelaeg *melyn* yw. Dywed awdwr "Drych y Prif Oesoedd," fod y geiriau hyn yn nghyd â Llough (Llan*llwch*, Tal-*llychau*, Maes*llwch*) Cynwy, Drum, Llechlia "yn dangos fod y Gwyddelod yn preswylio gynt hyd wyneb y wlad hon." Y gair *Cor*yn Corlan, beth yw ei ystyr? Corlan yw Cut defaid, ac ystyr *caor* yw dafad yn y Wyddelaeg.

Rhenir cyfnodau boreu'r byd yn dair, sef (1) y *Stone Age*, y cyfnod pan y defnyddid y gareg (y gallestr yn benaf) fel arfau ac offer. (2.) Y *Bronze Age*, pan y gwneid arfau ac offer â *bronze*, yr hwn sydd gymmysgiad o ddau fetel, yn y cyfartaledd o un o alcan (*tin*) i naw o gopr. (3.) Yr *Iron Age*, cyfnod yr haiarn. Yr oedd hwn wedi dechreu cyn dyfodiad Julius Cæsar i Brydain, 55 cyn Crist. Ni cheir offerynau *bronze* yn y wlad yma byth yn gymmysgedig a gweddillion Rhufeinig. Y mae Hugh Miller yn ei *Sketch Book* yn dyfynu a ganlyn allan o erthygl a ymddangosodd mewn newyddiadur o'r enw *Scotsman*: "Yr wyf yn cael fod rhan fawr o'r afon Shannon, rhwng Lough Rea a

Lough Deargh, na ellid ei rhydio ond mewn un man, a'r man hwnw wrth gwrs oedd yr unig dramwyfa rhwng trigolion y ddwy ochr i'r afon. Ymddengys eu bod, fodd bynag, yn cwrdd yn fynychach er mwyn rhyfel nag er mwyn heddwch; ac allan o'r rhyd yma cloddiwyd llawer iawn o hen offerynau rhyfel, rhai yn gyfansoddedig o *bronze*, a rhai o gareg. Yr oedd eu sefyllfa yn yr afon yn adrodd ystori gywrain—yn gywrain mewn ystyr hanesyddol a daearegol. Cafwyd yr arfau o *bronze* yn yr haen uwchaf o wely'r afon, ac islaw iddynt yr arfau o gareg, gan ddangos fel y gwyr naturiaethwyr yn dda, fod oes o *bronze* wedi canlyn nid oes o aur, ond oes o gareg." Defnyddir y gair *pres* yn lle *bronze* yn aml, megys yn yr Ysgrythyrau (1 Bren. v. 6; vii. 13, 14). Yr oedd *bronze* yn adnabyddus i'r hynafiaid yn foreu iawn, tra na ddaeth pres i adnabyddiaeth hyd yn gymhariaethol ddiweddar. Cymmysg yw pres o gopr a zinc. Nid yw arfau yr hynafiaid yn cynnwys dim zinc.

T. C. U.

MYFYRWYR PRIF YSGOLION YSGOTLAND.

GWERS I FECHGYN IEUAINC CYMRU.

Mae yn debyg fod llawn un rhan o dair o fyfyrwyr Ysgotaidd yn byw mewn tlodi mawr. Mae y flwyddyn golegawl yn gynnwysedig yn y cyffredin o ryw bum mis, ac yr wyf wedi adwaen rhai yn cyfarfod â holl dreuliau y tymhor hwnw â dwy bunt ar hugain. Mae yn wir mae yn Aberdeen oedd hyn, lle yr arferid prynu cant o ysgadan ffrès am chwe cheiniog, ac y gellid cael ciniaw ardderchog o bysgod am geiniog; ond os cofir fod y swm a grybwyllais yn cyfarfod â thaliadau (*fees*) gwahanol *glasses*, y rhai ydynt yn dyfod i ryw ddeg punt, ac ar y gweddill o ddeuddeg punt y mae y myfyriwr wedi llwyddo i fyw dros y pum mis yma—gorchest sydd yn ymddangos yn ddigon o syndod. Y myfyrwyr sydd yn byw fel yma yw y cymmeriadau mwyaf dyddorol yn y Prif-ysgolion Ysgotaidd; a'u hangenion hwy sydd wedi bod yn achos i'r hen ddull o fyw yn mhlith y myfyrwyr i fyned heibio pan oeddynt yn byw gyda'u gilydd, ac yn ciniawa ar yr un bwrdd cyffredin. Mae ymdrech rhai o'r bobl yma yn eu llwybr i fyny yn ngwyneb anhawsderau dychrynllyd yn rhywbeth sydd braidd yn ardderchog.

Yr oedd un o wir y ddwy bunt ar ugain yma (*twenty-two-pounders*), a grybwyllais yn ddyn mewn sefyllfa isel iawn, ond efe a ymdrechodd fel gwron, ac yr oedd ei fywyd yn syndod parhaus. Yr oedd mor dlawd yn wir fel cyn delai un at y cwestiwn, "sut ar y ddaear yr oedd y dyn yma yn cadw corff ac enaid wrth eu gilydd, heblaw talu ei *fees* colegawl allan o swm mor fechan," yr oedd cwestiwn blaenorol yn ymgynnyg ag oedd hyd y nod yn fwy anhawdd, "O ba le y cafodd ei ddwy bunt ar hugain?" Yr oedd wedi bod yn saer, yr oedd wedi lleihau ei oriau gwaith fel y gallai eu cyflwyno at fyfyrdod. Yr oedd wedi cael hen ddillad gweinidog y plwyf, ac yr oedd rhywun arall wedi gwneuthur rhodd o hen ŵn iddo. Ar ddechreu ei dymhor cyntaf, bu mor ffodus

ag enill ysgoloriaeth gwerth deg punt—yr oedd yn ffortun fach iddo—blwydd-dal o ddeg punt am bedair blynedd i ddod. Pan welodd ei enw ar lechres y rhai llwyddianus, gwnaeth ystumiau mor rhyfedd i guddio ei deimladau fel y trodd pawb eu llygaid tuag ato, ac yr oedd yn *joke* byth wed'yn yn ei erbyn. Er sicrhau y deuddeg punt arall, efe a wnaeth fel yma: gweithiodd fel saer am bedair awr y dydd yn ol tair ceiniog yr awr, ac felly ennillodd o chwech i saith punt yn ystod ei arosiad yn y Brif-ysgol, ac at y rhai hyn yr oedd yn gallu ychwanegu pum punt allan o'i enillion blaenorol. Cafodd gan gyfeillion i roi benthyg llyfrau iddo, ac yr wyf bron yn meddwl ei fod yn enill rhywbeth ar y suliau trwy fod yn arweinydd canu yn un o eglwysi y ddinas. Dygwyddais alw arno un diwrnod, yr oedd yn bryd ciniaw, a daeth gwraig y tŷ i mewn ato â rhywbeth ganddi ar hen *dray* du rydlyd. "Ddim dipyn bach etto, Mrs. Todd," meddai efe, mewn cryn dipyn o ddyryswch. A'r foneddiges hono a aeth allan yn uniawn. "Peidiwch myned i ffwrdd," meddai efe wrthyf fi, "'nawr peidiwch; nid yw fy nghiniaw byth wedi digoni, ac os aroswch dipyn bach caf ef wedi digoni yn briodol heddyw." Gadewais yn mhen tair munyd wed'yn, a thu allan i'r drws oedd ei giniaw, yn oeri—ysgadenyn a thair pytaten. Yr oedd yn byw mewn *box* o ystafell, ei wely mewn un cornel; a rhanai yr ystafell yma â dyn arall, yr hwn a weithiai yn galetach hyd y nod nag efe.—*Appleton's Journal.*

CYPRUS.

Mae yr ynys yma, yr hon a gyssylltwyd yn ddiweddar â Phrydain Fawr trwy dipyn o gyfrwystra Machiavelaidd ar ran Iarll Beaconsfield a'i gyd-weinidogion, yn gorwedd yn nwyreinbarth Môr y Canoldir, ac yn agos mewn pellder cyfartal oddiwrth arfôrdir Syria ac Asa Leiaf. Mae yn drydedd o ran maint o ynysoedd deheu Ewrop, ac felly gryn dipyn yn fwy nâ Corsica a Creta. Y mae yn 145 milldir o hyd wrth driugain o led. Cymmerir rhan fawr o'r ynys i fyny gan ddwy gadwyn o fynyddau yn rhedeg bob un o honynt yn nghyfeiriad y dwyrain a'r gorllewin. O'r rhai hyn, y mwyaf a'r uchelaf yw yr un sydd yn cymmeryd i fyny yn agos yr oll o ddeheubarth yr ynys. Adnabyddir y gadwyn yma gan ddaearyddwyr diweddar fel Mynydd Olympus, er fod yr enw hwnw yn cael ei gyfyngu gynt at un pigyn neillduol yn unig a adweinir yn awr fel Mynydd y Groes Santaidd, 12 milldir o Larnaca. Nid yw y pigyn uwchaf dros 3,200 o droedfeddi o uwchder. Mae yn hynod, fodd bynag, am ei agwedd barhaol a didor—yn gynnwysedig ben bwy gilydd o ripyn cul garw a chreigog, yn disgyn yn ddisymwth i'r deheu i wastadedd ëang Lefkosia a'r gwastadedd sydd yn ffinio ar yr arfôrdir.

Rhwng y ddwy gadwyn yma o fynyddoedd y gorwedda gwastadedd ëang sydd yn estyn o'r naill ben i'r llall i'r ynys, o fôrgilfach Famagosta i fôrgilfach Morphu, ryw driugain milldir o hyd wrth led sydd yn amrywio o ddeg i ugain. Adweinir ef wrth yr enw Messaria, a dyfrheir

ef gan ddwy afon fechan a ddysgynant o fynyddoedd y de, ond wedi cyrhaedd y gwastadedd troa'r naill i'r dwyrain a dylifa i fôrgilfach Famagosta gerllaw adfeilion Salamis; tra mae y llall yn dylifo i fôrgilfach Morphu. Mae y rhan fwyaf o'r gwastadedd yma yn agored ac heb ei gwrteithio, ond codir cryn lawer o lafur yn y rhanau gogleddol o hono, ac nid oes amheuaeth na ellir yn rhwydd ddwyn yr oll dan gwrtaith. Mae yn hynod fod Cyprus yn yr amser gynt yn enwog am ei fforestydd, y rhai a guddient nid yn unig yr oll o'r mynyddoedd ond hefyd yr oll o ganolbarth y gwastadedd, fel mae gydag anhawsdra mawr y cliriwyd y tir i'w gwrteithio. Yn bresenol, mae holl wastadoedd Messaria yn hollol noeth a digoed, ac nid oes ond yn unig ranau uwchaf a phigau canolbarthol mynydd Olympus yn bresenol yn guddiedig â'r pinwydd. Y mae diflaniad y fforestydd wedi dylanwadu ar yr afonydd, y rhai, gan mwyaf, nid ydynt ond ffrydiau bychain, a sychant i fyny yn yr haf. Yr un fwyaf yw yr un a adnabyddid gynt fel Pediaeus, yr hon sydd yn rhedeg dros wastadedd Messaria, ac yn ymarllwys i'r môr gerllaw Salamis. Ond nid yw hyd y nod hon yn cyrhaedd y môr yn yr haf, ac y mae ei dyfroedd yn ymffurfio yn gorsydd mawrion, y rhai a weinyddant nid ychydig i wneuthur y gwastadedd yn afiach.

Mwnau.—Yn nesaf at ei fforestydd y rhai ydynt yn hir wedi supplyo penaethiaid Groegaidd yr Aifft â choed at eu llongau, yr oedd Cyprus yn enwog gynt am ei chyfoeth mwnawl, yn neillduol am ei chopr, yr hwn a weithid oddiar amser boreu iawn, ac a barhaodd i fwynhau y fath enwogrwydd yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, fel y mae yr enw diweddar am y metel yn deilliaw o'r ymadrodd *Aes Cyprium* neu *Cuprium*, wrth yr hwn enw yr adwaenid ef yn mhlith y Rhufeiniaid. Yn ol Strabo, ceid y mwn gwerthfawrocaf mewn lle a elwid Tamasus yn nghanolbarth yr ynys, ar lethrau gogleddawl mynydd Olympus, ond ni wyddys yn gywir yn mha le, ac nid oes gweithfaoedd mwnawl yn bresenol yn Cyprus. Heblaw copr, yn ol Strabo, cynnyrchid yn yr ynys lawer o fwn arian, ac fe ddywedir gan Pliny fod amryw fathau o feini gwerthfawr yn cael eu cynnyrchu yno, megys y *diamond* a'r *emerald*, ond ychydig wyddis yn awr am fwnyddiaeth a daeareg Cyprus. Mae halen yr hwn oedd gynt yn enwog am dano yn cael ei wneuthur etto, ac mae gweithfaoedd halen yn Larnaca a Limasol.

Cynnyrchion Llysieuol.—Yr oedd Cyprus gynt yn enwog am ei ffrwythlondeb a'i phrydferthwch, ac o dan lywodraeth Venetia cariai yn y blaen fasnach helaeth yn ei gwahanol gynnyrchion naturiol, ond y mae y fasnach wedi lleihau yn ddirfawr mewn amseroedd diweddar. Heblaw llafur, fodd bynag, allforir llawer iawn o win, olew, mader, ffrwyth y pren carob, sidan a gwlan. Codir hefyd ychydig o dobaco a chotwm. Mae y gwastadeddau bychain, wrth odreu Olympus, rhwng y mynyddoedd a'r môr, yn gystal a'r lleinau culion o dir gwastad ar hyd yr arfôrdir gogleddol yn ffrwythlawn iawn. Ond y mae gwastadedd ëang y canolbarth, o'r tu arall, mewn llawer man yn gorsog ac afiachus, ac yn wir, y mae holl ranau mewnol yr ynys yn afiach iawn, ac yn agored neillduol i dwymynau peryglus.

PORTHLADDOEDD.—Un o anfanteision mawrion Cyprus yw y diffyg o borthladdoedd. Nid oes yr un porthladd da naturiol yn yr holl ynys. Nid yw Larnaca a Limasol, y prif leoedd masnach yn bresenol, yn ddim ond hafanau agored, ac nid oedd Salamis, prif borthladd yr ynys yn yr hen amser, a Famagosta, prif borthladd y Veneliaid, ond porthladdoedd *artificial* ar arfordir tywydog agored. Tzerinia, ar ochr ogleddol yr ynys, yr hon sydd yn gwasanaethu fel tramwyfa uniongyrchol i gyfandir Asia Leiaf, yw yr unig borthladd yn y parth hwnw, a phorthladd bychan a gwael iawn ydyw.

TREFYDD.—Yr unig drefydd teilwng o sylw yn Cyprus, yw y rhai canlynol:—(1.) Lefkosia, neu Nicosia, fel y gelwir hi yn y cyffredin, yw prif ddinas yr ynys oddiar amser y breninoedd Lusignaidd. (2.) Famagosta, yn y dwyrain, gerllaw adfeilion Salamis, a gododd i bwysigrwydd hefyd o dan yr un breninoedd, gan y rhai y cafodd ei gosod o dan amddiffyngaerydd, a pharhaodd o dan y Venetiaid i fod yn brif borth ac amddiffynfa gadarnaf yr ynys. Cyrhaeddodd enwogrwydd trwy ei hamddiffyniad gwrol yn erbyn y Tyrciaid yn 1571. Mae y muriau allanol etto yn sefyll, ond nid yw ond lle canolig gyda phoblogaeth o ryw ychydig gannoedd. (3.) Larnaca, ar yr ochr de ddwyreiniol ar safle yr hen Citium, yw prif fasnachle yr ynys yn awr, a'r dref fwyaf addawus a blodeuog o lawer. Cynnwysa o bump i chwe mil o drigolion. Mae yn perthyn iddi ddwy ran—yr hen dre ychydig i mewn i'r ynys, a'r Marina yn gwynebu y môr, lle y mae y *consuls* tramor yn byw, a lle mae agerlongau tramor yn cyffwrdd, ac mae hyn yn rhoddi math o fywyd a bywiogrwydd i'r lle nas ceir ei debyg yn un man arall yn Cyprus. Mae ymchwiliadau diweddar wedi dwyn i'r golwg yma lawer o weddillion dyddorol o ddinas henafol Citium. (4.) Limasol, ar yr ochr ddeheuol, sydd le o gryn dipyn o fasnach, er ei bod mewn rhan wedi colli ei gogoniant yn ymyl llwyddiant Larnaca. Oddiyma yn benaf yr anfonir allan winoedd Cyprus, y rhai ydynt mewn cymmaint bri trwy yr oll o'r Levant. (5.) Bapho neu Papho, ar safle yr hen Paphos, gelwir hi er mwyn gwahaniaeth Paphos newydd, mae yno borthladd bychan ond annyogel. Nid yw ond lle bach iawn, er fod yno esgob Groegaidd yn byw. (6.) Tzerinia, yr hen Kerynea, amgylchir hi etto gan ei hen amddiffyngaerydd Venetiaidd, ac y mae yn perthyn iddi gan hyny ryw ymddangosiad o dref, ond nid yw ond lle bychan iawn. Mae poblogaeth yr ynys, yr hon oedd yn amser y Venetiaid yn ddim llai nâ miliwn, yn cael ei chyfrif yn awr yn rywbeth tua 135,000; o'r rhai hyn mae tua dwy ran o dair yn Roegiaid, a'r gweddill yn benaf yn Dyrciaid.

CARIAD mam nid yw byth yn pallu, byth yn newid, byth yn blino. Dichon tad droi ei gefn ar ei bleutyn, a brodyr a chwiorydd droi yn elynion annghymmodlawn, fe ddichon i wyr adael eu gwragedd a gwragedd eu gwyr. Ond cariad mam mae yn parhau trwy yr oll; trwy glod ac annghlod, yn ngwyneb cyhuddiadau'r byd, y fam a gara yn y blaen, ac a obeithia o hyd y bydd i'w phlentyn droi o'i lwybrau drwg ac edifarhau; mae yn parhau i gofio am wenau y baban a lanwai ei mynwes un amser â llawenydd, y chwerthiniad hapus, llef gorfoleddus ei fabandod, agoriad addawus ei ieuenctyd; ac nis gall byth gael ei dwyn i feddwl am dano fel yn hollol annheilwng.—*Washington Irving.*

Y TORIAID AC ARIAN Y WLAD.

Mr. Gol.,—Pan yn ysgrifenu fy ychydig linellau byrion ac anmherffaith yn eich rhifyn am Tachwedd, yr oeddwn yn gobeithio fod pwysfawredd y pwnc yn gyfryw ag a fyddai yn debyg o ddwyn rhywun mwy galluog i draethu ei len gyda mwy o nerth ac arddeliad ar faes yr Ymofynydd; ond cefais fy siomi. Ni'm dawr, fodd bynag, ryw lawer; a chan gofio gwers a ddysgais pan yn blentyn, *Try Again*, yr hyn o'i gyfieithu i Gymraeg sathredig, sydd yn golygu Hai, ac ati etto! wele ychydig o linellau ychwanegol, gan obeithio y dylanwadant, pe byddai ddim ond i osod un hoelen fechan yn arch y Weinyddiaeth Doriaidd.

Mae y Toriaid yn bresenol mewn meddiant o gôd (*purse*) y deyrnas. Sut ddefnydd y maent yn wneuthur o'i gynnwysiad—cynnwysiad sydd wedi costio mor ddrud i'w enill? A ydynt yn helpio i'w lanw neu ynte a ydyw yn myned yn llai yn eu dwylaw? Gall Arglwydd Beaconsfield draethu ymadroddion hyawdl, ond ni wnaiff ei hyawdledd gelu mai dyma yw y ffaith. Mae y Weinyddiaeth Doriaidd wedi bod am bum mlynedd yn awr yn trefnu cyllid y deyrnas, a pha beth ydyw y canlyniad? Cawsant i'w dwylaw oddiwrth lywodraeth Mr. Gladstone weddilliad (*surplus*) o yn agos i chwe miliwn o bunau. Y mae yr oll wedi diflanu mewn mwg ac ymffrost—tarth ansylweddol, brag bostfawr. Ië, nid yn unig mae y chwe miliwn wedi diflanu, ond yr oedd diffyg o chwe miliwn yn Ebrill diweddaf. Beth fydd Ebrill nesaf? Mae Syr Stafford Northcote yn wir wedi bod yn ceisio profi fod gweinyddiaeth geidwadol yn un rad, trwy gyferbynu trethi 1856 â threthi 1878. Ond yr ydym yn gobeithio na fydd y wlad ddim mor ddwl, (er ei bod wedi dewis y weinyddiaeth bresenol), yr ydym yn gobeithio na fydd hi ddim digon dwl i gael ei chymmeryd i mewn trwy gymhariaeth rhwng y ceisiadau a wnaed ar y genedl ar derfyn rhyfel fawr fel rhyfel y Crimea a'r ceisiadau hyny a wneir yn awr yn unig er mwyn cyfarfod ag angen o du y Prif-weinidog i wneuthur arddangosiad isel ac ymffrostfawr o gyfoeth a gallu. Cawn Brydain Fawr fel ei cynnrychiolir gan Arglwydd Beaconsfield yn swagro o flaen y byd fel rhyw *prize-fighter* neu *bully*, â modrwyau aur ar ei fysedd ac yn ei glustiau, ond heb wroldeb moesol yn ei galon na goleuni cydwybod yn ei enaid. Ond am yr holl *show* a'r *sham* yma ni gawn dalu yn ddrud, fel yr ydym eisoes wedi cael talu am lywodraeth Doriaidd. Er enghraifft, yr oedd y Weinyddiaeth Doriaidd a derfynodd yn Rhagfyr, 1868, yn trethu y wlad ar yr amser hwnw i'r swm o £3,000,000 yn fwy nag a delid yn 1866, ac wedi'r cwbl, gadawodd hanner dyled rhyfel Abyssinia i gael ei dalu gan eu holynwyr. Llwyddodd y Rhyddfrydwyr pan ddaethant i swydd nid yn unig i dalu y gyfran yma, sef rhyw £4,500,000; ond llwyddodd hefyd i leihau y ddyled wladol yn fwy nâ miliwn yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u gwasanaeth, a phan unwaith drachefn y cymmerodd y Toriaid ffrwyn y llywodraeth i'w dwylaw yn Chwefror, 1874, cawsant *surplus* yn barod i'w gwasanaeth o ryw £5,900,000. Yr oedd cynnildeb y Weinyddiaeth Ryddfrydig, yn ychwanegol i hyn, wedi galluogi y wlad i dalu yr *Alabama Award* o ryw £3,200,000, yn nghyd â dwy filiwn am ddydd-

ymu pryniad swyddi yn y fyddin ; tra y dyddymwyd treth yr ŷd, lleihawyd y trethi ar goffi a sugr, a gostynwyd treth yr *income* i lawr i ddwy geiniog yn y bunt. Y mae gorchestion arianol rhwng 1870 a 1874, yn dangos lleihad o feichiau y genedl o ddim llai *na hanner can miliwn o bunau ! !* Ac yn awr beth yw yr hyn y mae y Toriaid yn gorfod ei gyffesu mewn perthynas i'r modd y maent hwy oddiar 1874 wedi delio ag arian y bobl ? Nid yw ond yn unig gyffesiad o wario heb reol nâ rheswm. Ar derfyn pum mlynedd o lywodraeth, bydd y Ceidwadwyr mewn sefyllfa yn gwbl i'r gwrthwyneb i'r hyn y cawsant eu hunain ynddo pan y syrthiodd y gallu llywodraethol i'w dwylaw. Tynir saith miliwn y flwyddyn yn fwy o logellau trethdalwyr y wlad yn awr nag a wnaed bum mlynedd yn ol. Wrth gwrs, y mae hyn yn boblogaidd ddigon gan y dosparth hwnw i logellau y rhai y mae yr arian yma yn myned. Ond a fydd dim gan y bobl rywbeth i'w ddywedyd yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf wrth y rhai hyn nad ydynt wedi pryderu i ddinystrio masnach y wlad ac achosi dyoddefaint trwy bob parth o'r wlad er mwyn llwgrwobrwyo y dosparth milwrol ac i chwareu eu baldordd bostfawr yn Ewrop ? Nid oes genyf ond gobeithio, Mr. Gol., fod llywodraeth y *Jingoes* eisoes ar ei thraed olaf, ac y bydd i gasglyddion y trethi roddi yn fuan y gair *finis* i'w syfrdandod meddw.

RHYDDFRYDWR.

CYMDEITHAS RHYDDHAD CREFYDD.

MAE y Gymdeithas uchod wedi cyhoeddi cyfres newydd o draethodynau yn dal cyssylltiad a'r pwnc y maent hwy wedi cyflwyno eu hunain ato. Wele un yn esampl :

YCHYDIG EIRIAU AT ETHOLWYR YN NGHYLCH DADGYSSYLLTIAD.

Y mae arwyddion ar bob llaw, mai y cwestiwn mawr i'w benderfynu cyn hir yn y wlad hon, fydd—Pa beth a wneir o'r Eglwys Sefydledig ? Yr ydym wedi diwygio bron bob dosparth o'r Wladwriaeth, ac yn awr, y mae pawb yn addef y rhaid diwygio yr Eglwys. Ond pwy sydd i'w diwygio ?

A fedr y Senedd ? Na, fe gymmerai i'r Senedd saith mlynedd o amser pe na wnai ddim arall ! Y mae wedi dechreu, a'r canlyniad ydyw colli amser, colli tymher, a gohiriad mesurau o'r pwys mwyaf i'r bobl !

Paham y dylai Ty y Cyffredin drefnu addoliad Eglwyswyr, mwy nag eiddo yr Ymneillduwyr ?

Nid Ty o Eglwyswyr ydyw ! Ond y mae yn cynnwys Iuddewon, Pabyddion, Cwaceriaid, Methodistiaid, ac ymneillduwyr ereill, yn gystal a'r rhai hyny nad ydynt yn gofalu am grefydd o unrhyw fath !

A ydyw hwn yn gorff a fedr yn briodol drefnu defodau a chanonau, credöau athrawiaethol, a gwisgoedd offeiriadol ? etto, y mae yn rhaid iddo eu trefnu tra y mae genym sefydliad cenedlaethol o grefydd ! Oblegyd rhaid i Eglwys y Wladwriaeth gael ei llywodraethu, yn gystal a'i chynnal gan y Wladwriaeth !

Pe na byddai uchel eglwyswyr ac isel eglwyswyr, defodwyr a gwrth-ddefodwyr, yn perthyn i Eglwys Sefydledig, gallesid eu gadael i settlo eu gwahaniaethau yn eu plith eu hunain heb drafferthu y Senedd.

Yn awr, y mae y genedl yn cynnal dosparthiadau o ddysgawdwyr sydd yn gwrthddweyd ac yn casâu eu gilydd, a thrwy hyny y mae crefydd yn cael ei diraddio. Onid yw yn bryd i adael y fath *system* afresymol?

Hyny a fyddai yn ddiwygiad a roddai help i bob diwygiad arall. Oblegyd y mae Sefydliad Gwladol o grefydd yn un o'r rhwystrau mwyaf yn ffordd gwelliantau politicaidd.

Y mae ei Esgobion a'i glerigwyr bob amser wedi gwrthwynebu, ac yn parhau i wrthwynebu bron pob rhyw gyfnewidiad a ddeisyfir gan y bobl. Mwynhant orfaeliaeth eu hunain, ac am hyny daliant i fyny orfaeliaethau ereill. Y maent yn edrych ar bob cwestiwn cyhoeddus, trwy ddrychau eglwysyddol, ac er mwyn "yr Eglwys" yn gydwybodol, neu yn annghydwybodol, aberthant fuddiannau y genedl.

Nid oes dim yn rhanu pobl y wlad hon fel y cwestiwn eglwysig hwn. Y mae addysg, dyngarwch, cyssuron cymdeithasol, rhagolygon arianol dynion, y pethau hyn, yn gystal a gwleidiadaeth, oll, yn cael eu dylanwadu gan fodolaeth gradd (*caste*) o glerigwyr, a gynnelir ar draul y Wladwriaeth, a chyfundeb crefyddol, dan nawdd y Llywodraeth. Y mae y Senedd, y *Polling Booth*, y *Vestry* blwyfol, y Bwrdd Ysgol, ac hyd y nod y mynwentydd, yn ein cynnysgaethu â phrofion o'r annghyfiawnder, y rhagfarn, a'r trahausder a gynnyrchir gan Eglwys Wleidyddol.

Etto, y mae eiddo cenedlaethol, gwerth miliynau lawer yn cael ei wario i gadw i fyny y system niweidiol hon.

Pe ei cymhwysid at amcanion tymhorol, fe wnai,—hyd y nod ar ol talu i bob un y mae ganddo hawl deg i ad-daliad,—addysgu y bobl, ysgafnhau y beichiau cyhoeddus, a gosod terfyn ar y treuliau mwyaf gwastraffus yn y byd.

Etholwyr! Dyma gwestiwn y mae yn rhaid i chwi ei gymmeryd mewn llaw. Darfu i chwi ofyn, a sicrhau cyfiawnder i'r Iwerddon, trwy ddileu ei Sefydliad Eglwysig, ac yn awr y mae yn rhaid i chwi ofyn am gyfiawnder i chwi eich hunain. Ni cheir gwir heddwch yn Lloegr, na diwygiad trwyadl yn Eglwys Loegr, hyd nes y ceir dadgyssylltiad; y mae pob gwleidyddwr craff, yn gwybod nad yw yn unig, ond "cwestiwn o amser," a pha gyntaf y penderfynir ef goreu oll. Am hyny gwnewch eich meddyliau i fyny yn ei gylch, os nad ydynt wedi eu gwneyd i fyny eisoes. Os ydych yn meddwl fod y sefydliad yn niweidiol, yna ceisiwch osod terfyn arno mewn ffordd gyfansoddiadol. Na adewch i ymgeiswyr osgoi y pwnc; gwasgwch ef ar eich cydetholwyr; gweithredwch gyda dealltwriaeth a sefydlogrwydd. Byddwch amyneddgar a dyfalbarhaol, heb ofalu cael eich trechu yn achlysurol. Y mae pob achos da wedi ei orthrechu cyn iddo fuddugoliaethu. Chwi a ennillwch yn y diwedd, ac yna fe ddygwydda drachefn yr hyn sydd mor aml wedi dygwydd o'r blaen. Bydd hyd y nod y rhai a fu yn ymladd yn eich erbyn, yn barod i gydnabod fod yr Eglwys a'r Wladwriaeth ar eu hennill trwy y cyfnewidiad.

Cartref y Gweithiwr.—Penderfynwch ddarllen gartref, a dywedwch wrth eich gwraig am eich penderfyniad, gwnaiff hi eich cynnorthwyo can belled ag y gall; bydd ei chamrau yn ysgafnach, a'i llaw yn fwy diwyd trwy y dydd, gan ddysgwyl y noson gyssurus gartref pan fyddoch chwi yn dychwelyd. Bydd holl waith y ty wedi cael y sylw dyladwy mewn pryd, bydd ei le i bob peth a bydd pob peth yn ei le, a bydd hyn fel rhyw swyn bendigedig wedi gwneuthur hyd y nod cartref y bobl gyffredin yn gartref o drefn ac o chwaeth. Bydd y bwrdd yn barod gerllaw'r tan; bydd y dorth o'r dosparth hwnw sydd yn dywedyd yn ei hymddangosiad, Deuwch a thorwch a deuwch etto. Bydd y cwpanau a'r soseri yn dysgwyl am gael eu llanw. Bydd y tegell yn canu, a'r plant, ar ol bod yn chwareu yn yr awyr agored, yn llawn gwenau yn y dysgwyliad dedwydd am swper gyda nhad gartref, ac am gael clywed y darllen hyfryd ac adeiladol ar ol hyny.—*Helps.*

MARWOLAETH Y DYWYSOGES ALICE.

Diwrnod du tywyll fydd y pedwerydd dydd ar ddeg o Ragfyr mwy yn nghalaniadur y teulu breninol. Rhagfyr 14eg, 1862, y bu farw y Tywysog Cydweddog, Albert Dda, wedi ei dori i lawr gan y *typhoid fever*; a'r un fu'n ei wylied gyda phob ffyddlondeb yn ystod ei afiechyd trwm oedd y dywysoges Alice; a chyda'r un ffyddlondeb didor y bu wedi hyny yn ceisio ysgafnhau trymder oriau tywyllion galar ein hanrhydedd-usaf Frenines. A phan fu Tywysog Cymru yn glaf o'r un clefyd â'i dad ryw saith mlynedd yn ol, yr un llaw dyner fu'n ei wylied yntau ar ei wely. Ar y 14eg o Ragfyr y cafodd efe dro ar y dwymyn. Ar y 14eg o Ragfyr, 1878, y bu farw y dywysoges Alice ei hunan hefyd, o'r *diphtheria* (dolur gwddf.) Alice ydoedd trydydd plentyn ein brenines Victoria, a ganwyd hi Ebrill 25, 1843. Yn 1862, y priododd â'r Grand Duke, y pryd hwnw y tywysog, Louis o Hesse. Bu iddynt saith o blant. Collwyd un o honynt mewn modd anffodus iawn yn 1873, pan nad oedd ond dwy a hanner oed. Dygwyddodd gwympo trwy ffenestr agored yn'y palas yn Darmstadt, a bu farw o'r niwed a gafodd. Ar ddiwedd yr haf diweddaf talodd y teulu ymweliad â'r wlad yma, ac yn fuan wedi eu dychweliad adref, gwelwyd yr arwyddion cyntaf o afiechyd. O fewn wyth niwrnod cymmerwyd chwech o'r teulu yn glaf, ac yn eu plith y Grand Duke ei hunan. Cymmerodd y dywysoges, fel yr oedd yn naturiol i'r fam wneuthur, faich y *nursio* arni ei hunan, a bernir i hyn effeithio ar ei iechyd, fel ag i'w gwneuthur yn fwy agored i gymmeryd y clefyd. Yr oedd y meddyg mae'n debyg wedi rhoddi gorchymyn pendant iddi beidio cusanu y plant. Ymddengys yn orchymyn creulawn ac yn un anhawdd i fam ei gadw. Ond hi a'i cadwodd yn ddewr nes i un o'r rhai bychain farw; ac yna pan gorfu iddi dori y newydd chwerw i'r rhai bach creill, torodd un o honynt allan i wylo mor annghyffredin, fel y methodd hithau ymgadw yn hwy; cymmerodd ef yn ei breichiau a chusanodd ef, gan osod ar yr un pryd sel marwolaeth arni ei hunan.

Gwnai y dywysoges Alice enwogi ei hunan yn unrhyw gylch bywyd. Yr oedd yn debycach i'w thad nag un o'r plant, a dywedai y rhai a'i hadwaenent ei bod yn neillduol ddeniadol, dysglaer, llawen, cariadus. Anwylid hi lle bynag yr elai am ei doniau deallol, ei chydymdeimladau moesol, ac am natur oedd bob amser yn iachus, yn glir, ac yn gyfan. Yr oedd ei theimlad o ddyledswydd yn gryf nad pa mor anhawdd neu beryglus y byddai. Rhoddodd i ni esampl dda, fel merch, fel chwaer, fel mam. Teimlai ddyddordeb neillduol yn hawddfyd tlodion ein gwlad, ac ymofynid am ei chynghor gan rai mor brofiadol a Miss Mary Carpenter. Siarada pawb yn dda am dani, ac nid yw yn rhyfedd fod cymmaint yn galaru o'i cholli. Dywed Mr. Spears, "Yn ngwyneb y fath fywyd prin y mae angen dywedyd dim am ei chrefydd. Nid yw yn un dirgelwch ei bod yn coleddu ac yn caru yr un syniadau a'i thad. Nid trwy ryw lwybr amgylch-ogylch y daethom i wybod flynyddau yn ol ei bod yn *Liberal* mewn duwinyddiaeth; a bod y gredo syml, y ffydd ddyngarol, wrth sylfaen ei hardderchogrwydd. Ond yn nodweddion ffydd ymarferol y profodd ei bod wedi ei geni o Dduw, trwy y cariad oedd ganddi at blant Duw. Ar ragor nag un adeg o berygl i'w theulu a'i gwlad y dangosodd ei ffydd trwy ei gweithredoedd, a sylweddolrwydd ei daioni yn mhresenoldeb anhawsder a pherygl. Felly y daeth at derfyn ei llafur daearol. Yr oedd wedi cael rhyw fath o rag-deimlad y buasai farw ar ben blwydd marwolaeth ei thad, ac felly y bu. Fel gwraig ac fel mam, cyflawnodd ei rhan yn ffyddlawn hyd y diwedd, a thalodd benyd ei defosiwn anhunanol fel y mae llawer enaid pur a dewr wedi wneuthur o'i blaen. Yn ngwyneb y fath gyflawniadau yr ydym heddyw yn bendithio ei choffadwriaeth ac yn cyflwyno iddi y diolch y mae Duw wedi ewyllysio fod yn rhan ac yn wobrwy rhinweddau dysglaer."

Aur ydyw mantell y ffwl, sydd yn cuddio ei holl ddiffygion oddiwrth y byd.—*Feltham*

Arian, mae yn was da, ond yn feistr peryglus.—*Bonheur.*

Yr ydym yn gweled faint mae dyn yn *feddiannu*, ac am hyny yn cenfigenu wrtho; pe gwelem mor ychydig mae'n *fwynhau*, gwnaem yn hytrach dosturio wrtho.—*Seed.*

Mae Mammon wedi cyfoethogi ei filoedd a dinystrio ei ddegau o filoedd.—*South.*

Mae gwrtaith i'r meddwl mor angenrheidiol a bwyd i'r corff.—*Cicero.*

ADOLYGIAD.

Y Frythones: at wasanaeth Merched a Gwragedd Cymru, dan olygiaeth Cranogwen. Pris. 2g. Argraffwyd gan D. Williams a'i fab, Llanelli. 36tdd.

Dyma ymgeisydd arall am ffafr y cyhoedd. Fe welir ei fod yn amcanu at lanw bwlch pwysig, i gymmeryd at faes nad oes hyd yma nemawr o drin wedi bod arno yn Nghymru—maes sydd wedi ei esgeuluso yn rhy hir. Mae y rhyw deg, oherwydd eu gwyleidd-dra cynhenid fcallai, wedi ymgadw yn ormodol yn y *back ground* yn yr amser sydd wedi myned heibio, wedi esgeuluso eu *interests* eu hunain, ac wedi bod yn rhy barod i ymfoddloni ar y briwsion a syrthient oddiar fyrddau eu *lords and masters*. Gwir fod sefyllfa menyw wedi gwella yn fawr oddiwrth yr hyn y mae wedi bod, ond y mae can wired a hyny ei fod etto yn mhell o'r hyn y dylai fod. Y mae y rhyw deg wedi ymddiried eu *interests* yn ormodol i'r rhyw arall, a da genym weled arwyddion o wahanol gyfeiriadau ei bod bellach yn gwneuthur ymdrech deg i ymysgwyd o'r llwch ac i ymgodi i'w safle priodol. Chwi ferched a gwragedd Cymru, nac ymfoddlonwch i eistedd yn hwy ar stol deirtroed anwybodaeth; eithr ceisiwch yn hytrach ddiwyllio eich meddyliau, a chasglu tywysenau gwybodaeth o'r gwahanol faesydd sydd yn gorwedd yn agored ger eich bron, fel y galloch fod yn well aelodau cymdeithas ac yn decach addurn yn y teulu o'r hwn y ffurfiwch ran. Bydded eich cais bob un o honoch i fod nid yn degan, nid yn *doll*, yn y teulu, ond trwy eich gwybodaeth a'ch deall, yn *true companion*, yn gydymaith gwerthfawr.

Ymddengys *Y Frythones* yn *step* yn yr iawn gyfeiriad, a dymunwn iddo bob llwyddiant. Os yw y rhifyn cyntaf yn ddangoseg teg o'r rhai fydd yn canlyn, credwn y bydd ei lwyddiant yn sicr. Dywed y Golygydd "nad yw yn bwriadu i'r cylchgrawn fod yn llyfr crefydd yn unig ac yn hollol," ac y mae hyny yn ddiau yn ddoeth. Nid yw y tipyn duwinyddiaeth sydd yn y rhifyn presenol yn ateb ein chwaeth ni; ac felly dywedwn goreu po leiaf o dduwinyddiaeth fyddo ynddo, fel na byddo iddo syrthio i'r cylch enwadol. Ar y cyfan, mae y rhifyn yn un da iawn, a thaer gymhellwn ar ein darllenwyr o'r rhyw deg fynu ei weled a'i "brofi" drostynt eu hunain. Cynnwysa ddau ddarlun hardd, ac erthyglau gwerthfawr—y rhai ar Iechyd a Phrydferthwch,—Y Teulu, yn cynnwys sylwadau ar Ymborth, Dillad, Gwisgoedd, yn dda ac yn bwrpasol iawn.

Y mae llysiau yn tyfu mewn ystafell wely yn niweidiol i iechyd.

Pan yn papuro ystafell gocheler papur â llawer o wyrdd ynddo, am ei fod yn cynnwys *arsenic*, yr hwn sydd yn wenwyn marwol. Defnyddir yr un gwenwyn hefyd i wneuthur y lliw gwyrdd dysglaer a geir weithiau mewn curtens gwelyau.

Wrth ddewis ty i fyw ynddo ceisier yn benaf oll fod yr ystafelloedd cysgu yn cynnwys pob cyfleusdra i gael eu hawyro yn dda. Mae awyriad aneddau yn fwy pwysig nag y mae nemawr i neb yn feddwl.

GWEITHIAU DUW A GWEITHIAU DYN.

Duw wnaeth y maesydd o donog ŷd, a'r gaenen sugr felus, a chwlwm y grawnwinoedd: dyn barodd iddynt gymmeryd ffurf y cwrw, y gwin, a'r gwirod poeth, gwenwyn cyrff dynion, a melldith eu heneidiau.

Duw wnaeth leisiau peraidd a hyfryd yr uchedydd a'r fwyalchen, ac a roddodd eu cân i'r adar bychain, ac i'r trychbryf eu diwyd swn; dyn wnaeth y gân ddiffaith ac anfoesol, yr ymrysonau yn y dafarn ac ar ben yr heol, efe wnaeth lefain trist a thorcalonus y plant bychain sydd yn cael eu hesgeuluso, llwon a rhegfeydd meddwdod, ac ocheneidiau gwragedd y meddwon.

Duw wnaeth arogl y rhosyn a'r winwydden wyllt, ac awyr bur y boreu, ac arogl hyfryw y maesydd dyfredig; dyn wnaeth ddrewdod afiach y tafarndy, a sawyr clafaidd mwg dybaco, halogfeydd marwol y chwareudy, ac awyr wenwynig heolydd culion, tywyllion, a llawnion ein trefi mawrion.

Duw wnaeth wyrddlesni'r borfa a'r coedydd deiliog, a ffurfiau byth-amrywiog a lliwiau prydferth y blodau, a gwynebpryd dyn; dyn wasgarodd dristwch dros wyneb y ddaear, ac a anurddodd ei wynebpryd â thrachwant a balchder a chenfigen a llid, fel mae llygad gwag yr idiot yn llai poenus i edrych arno.

Duw a wnaeth bob rhan o'r byd i fod yn llawn o fywyd a dedwyddwch; gwnaeth fyrddiynau o drychbryfaid i chwareu ar wyneb y dyfroedd ac i fwynhau eu bywyd bywiog yn nhes yr haul; gwnaeth yr anifeiliaid ar fil o fynyddoedd, a chenedloedd iachus o ddynion i garu ac i wasanaethu y naill y llall; dyn wnaeth y galanasdai ac offerynau marwol rhyfel.

Mae gweithiau dyn yn dda pan y maent yn debyg i weithiau Duw, yn ddrwg pan yn wrthwynebol iddynt. Pan yr ydym yn efelychu Duw, ac yn llafurio dros gariad a gwirionedd a daioni, y mae Efe yn gweithio gyda ni ac ynom ni, a bydd yn rhaid i ni lwyddo. Pan yr ydym yn dilyn ein melus chwant ac yn byw mewn hunangarwch a balchder, yr ydym yn brwydro yn erbyn Duw, ac nis gallwn byth lwyddo.

Byddwch chwi gan hyny ganlynwyr Duw fel plant anwyl; a rhodiwch mewn cariad, fel y carodd Crist ninau hefyd, ac a roddes ei hun drosom, i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.

NID YW GEIRIAU MWYN YN COSTIO DIM LLAWER.

Nid ydynt byth yn achosi poethelli ar y tafod a'r gwefusau, ac nid wyf yn cofio clywed erioed am yr un trallod yn dyfod o'r cyfeiriad yma. Er na chostiant lawer —1. Helpiant natur dda dyn ei hunan. Mae geiriau mwyn yn tyneru enaid dyn ei hunan. Mae geiriau digllawn yn ychwanegu cynnud at fflam digofaint, ac yn peri iddo losgi yn fwy ffyrnig—2. Mae geiriau mwyn yn peri fod ereill o natur dda. Mae geiriau oerion yn rhewi pobl, geiriau poethion yn eu llosgi, geiriau chwerwon yn eu chwerwi, a geiriau digllawn yn eu gwneuthur yn ddigllawn. Mae'r fath ruthriad o bob mathau ereill o eiriau yn ein dyddiau ni, fel mae'n ymddangos yn ddymunol i roddi i eiriau mwyn newid yn eu plith. Mae geiriau ofer, a geiriau segur, a geiriau brysiog, a geiriau maleisus, a geiriau ffol, a geiriau gweigion, a geiriau llygredig, a geiriau trystfawr, a geiriau rhyfelgar. Mae geiriau mwyn hefyd yn cynnyrchu eu delw eu hunain ar eneidiau dynion. A delw prydferth iawn ydyw. Esmwythant, tawelant, a chyssurant y gwrandawr. Cywilyddiant ef allan o'i deimladau sur, afrywiog ac anngharedig. Nid ydym wedi dechreu etto i ddefnyddio geiriau mwyn yn y fath gyflawnder ag y dylent gael eu defnyddio.—*Pascal.*

Mae tymher siriol yn debyg i ronyn o fwsg; mae'n gwasgar ei arogl dros bob peth y daw i gyffyrddiad ag ef, ac etto mae yn aros yr un peth.

Amser.—Yn gymmaint ag nad yw amser yn beth y gallwn ei ddal pan y mae wedi myned heibio, gadewch i ni ei anrhydeddu â llawenydd a gorfoledd calon pan y mae yn pasio.—*Goethe.*

Manion.

BERNIR fod o ddeugain i hanner can mil o bobl yn bresenol yn angladd y Parch. George Gilfillan.

Dyn oedd efe, a'i gym'ryd trwyddo draw.
Nid buan y caf weled ei gyffelyb.
Shakspere.

Nad pa mor hir y byddwch byw, yr ugain mlynedd cyntaf yw yr hanner hwyaf o'ch bywyd.—*Southey.*

DYN FEL LLYFR.—Mae dyn fel llyfr; ei enedigaeth ydyw y ddalen sydd yn cynnwys teitl y llyfr; ei fedydd ydyw y rhagymadrodd; ei ocheneidiau a'i lefain ydynt yr anerchiad at y darllenydd; ei faboed neu ei blentyndod ydyw pwnc neu gynnwysiad yr holl draethawd sydd yn canlyn; ei fywyd a'i weithredoedd ydynt sylwedd y llyfr; ei bechodau a chyfeiliornadau ei fywyd ydynt yr *errata* ydynt wedi dianc yn yr argraffiad; a'i edifeirwch yw yr adgyweiriad o honynt. Yn awr, yn mhlith llyfrau, fel y gwyddom, y mae rhai cyfrolau mawrion a elwir ffolio; rhai bychain, Decimo Sexto; ac ereill o wahanol faint, megys Octavo neu Sexto. Etto mae rhai wedi eu rhwymo yn hardd ac ereill yn fwy cyffredin; rhai mewn lledr cryf ac ereill mewn papur tenau. Rhai ydynt ar bynciau pwysig, megys Duwioldeb, ac ereill ar bethau dibwys a diffrwyth; ond ar dudalenau olaf pob un o honynt, saif y gair FINIS, gan awgrymu *diwedd* neu derfyn pob peth.—
Richard Gove, 1652.

AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL. — Gwnaiff finegr wedi ei ferwi gydag ychydig o myrrh neu camphor, a'i daenellu yn ystafell claf, ei chadw yn bur ac yn rhydd oddiwrth bob sawyr annymunol. Gwnaiff *chloride of lime* a adewir mewn llestr pridd gadw yn bur ystafell fo'n achlysurol yn annymunol i'r arogl. Pan fyddo cig wedi myned yn ddrwg, gellir gwella llawer arno trwy ei guddio am ychydig oriau a *charcoal* cyffredin, neu trwy osod ychydig *charcoal* yn y dwfr y berwir y cyfryw gig ynddo. Dylid gwyngalchu yn achlysurol bob math o ystafelloedd, gwely, ceginau, &c., ystablau, a thai maes, symmudir trwy hyny bob math o sylwedd niweidiol fo'n glynu wrth y gwelydd. Gwnaiff tamaid o resin, wedi ei osod mewn dwfr ar y pentan, daflu allan ryw ddefnydd a fydd yn llesiol iawn i rai fyddont yn cael eu blino gan beswch. Mae gwres y dwfr yn ddigon i daflu allan arogl y resin. Fe bair y resin yn eu rym am wythnosau.

DYWEDIR fod 16 o lwyr ymwrthodwyr yn y Ty Cyffredin presenol.

CARTREF.—Mae sylwedydd craffus wedi dadgan ei farn fod holl don cartref yn dybynu ar y wraig sydd yn llywyddu yno—y cartref cyffredin, yr *average* cartref, nid cartref y tlodi mawr, nac ychwaeth y cartref cyfoethog. Yn yr *average* cartref, y cartref cymmedrol yma, mae yn y cyffredin yn dybynu ar y wraig pa un a gaiff tes yr haul ddyfod i mewn i'r ystafelloedd, pa un a gaiff y bwrdd ei arlwyo mewn modd deniadol, pa un a gaiff goleuadau dysglaer a thanau dysglaer roddi gwresogrwydd a siriol deb ar nosweithiau'r gauaf—yn fyr, pa un a gaiff cartref fod yn lle dymunol neu annymunol, mae hyny yn dybynu yn y cyffredin ar wraig y ty. Mae'r gwr yn hollol analluog yn y mater; mae rhai yn ceisio cyssur rhag cartref annedwydd mewn darllen a myfyrio; rhai, trwy ymroddiad mwy i'w galwedigaeth; rhai, yn ymostwng i'r drefn, goreu y gallont; ereill ydynt yn cael eu denu gan siriol deb y dafarn, gan y cardiau, y *billiards*, &c.; ac y mae'r bobl ieuainc yn neillduol yn agored i gael eu tynu i gwmniaeth ddrwg ac arferion drwg.

AWYRIAD ANEDDAU. — Achwynir gan lawer eu bod yn codi'r boreu yn hollol flinedig. Cyfyd hyn yn fynych oddiwrth awyriad anmherffaith o'r ystafell, neu oddiwrth ormod o ddillad ar y gwely, neu oddiwrth y gwely ei hunan. Mae gwelyau pluf yn rhy esmwyth, ac yn gollwng yn rhy rwydd, ac yn cuddio gormod ar yr hwn sydd yn cysgu, felly yn cynnyrchu chwys gormodol. Niweidiol iawn yw'r arferiad o gysgu gormod dan flancedau, o achos y *carbonic acid* (y ddamp fud) a ollyngir ymaith gan y cysgydd ac a anadlir ganddo drachefn. Cyfeiliornad cyffredin yw tybied y gellir awyro ystafell wrth ollwng ffenestr i lawr ychydig ar y top yn unig, fe annghofir fod yn rhaid i'r awyr gael lle i fyned i mewn ac allan, cyn sicrhau awyriad perffaith. Mewn ystafelloedd cysgu mae yn fynych yn dygwydd nad oes y naill na'r llall; ac os bydd yno le tan, yn y cyffredin cauir ef i fyny. Camsyniad yw tybied fod yr awyr boethedig yn myned i'r top, ond mae'r anmhuredd mwyaf, y *carbonic acid*, am ei fod drymaf, yn syrthio i'r gwaelod; ac nid oes dim mor effeithiol i symmud ymaith haenau isaf yr awyr a'r lle tan agored cyffredin, yn neillduol os bydd yno dan yn llosgi.—*Sanitary Record.*

Hanesion.

MAE pleidlais yr Esgobion mewn perthynas i bwnc yr Afghan wedi peri syndod mawr i lawer; pleidiodd chwech dros y rhyfel, a dim ond un yn ei erbyn. Nid yw yn un syndod, mewn gwirionedd, felly y maent wedi gwneuthur bob amser. Nid yw yr Esgobion yn erbyn rhyfel; yr hyn y maent hwy yn ei erbyn yw diwygiad; gwrthwynebant bob math o ddiwygiad bob amser. Tybia Mr. Henry Richard, A.S., y dylid esgusodi yr Esgobion o'u gwaith yn y Senedd, fel y gallont ymgyflwyno yn fwy at eu gwaith priodol gartref. Fe gytuna'n darllenwyr ond odid.

GLYNA gobaith yn gryf wrth rai dynion. Adroddir am ryw weinidog sydd yn meddwl y daw yr amser pan y bydd aelodau cor canu yn ymhafio cystal a phobl ereill, ac yn wir fe ddywed golygydd y *Christian Life*, yr hwn sydd ei hun yn weinidog, ei fod yn gwybod am amryw gorau ag ydynt eisoes wedi cyrhaedd yr enwogrwydd hwnw.

MEWN pregeth a draddodwyd yn ei gapel yn Birmingham yn ddiweddar, dywedodd Mr. George St. Clair: "Rhaid i ni geisio ymddiswyddiad o'r Senedd, fel y gellir cael dadganiad o ewyllys y bobl. Yna wrth ethol Senedd newydd rhaid i ni gadw mewn cof y ffeithiau tarawiadol a ganlyn—fod y Senedd bresenol yn cynnwys 77 o Gaptenaiaid, 40 Lieutenant-Colonel, 12 Colonel, 28 Major a Major-General, 19 Lieutenant a Cornet, 17 o aelodau a war-members, trwy berthynasau teuluaidd agos, 9 yn gyssylltiedig â'r Llynges, 38 yn gyssylltiedig yn swyddogol â rhyfel, yn gwneuthur cyfanswm o 240, oll â'u *interest* i bleidio dros ryfel, tra nad yw yr aelodau masnachol i gyd ond 142."

ONID yw yn syndod gymmaint o dduwinyddion a'i ystyrient yn atheistiaeth i wadu anfeidrol allu neu anfeidrol ddoethineb Duw, ond a'i ystyriant yn heresi i ddywedyd fod ei drugaredd yn anfeidrol! Ie, y mae miloedd ydynt yn teimlo rhyw arswyd wrth sylw John Stuart Mill nad yw Duw yn hollalluog, ond ydynt yn credu y sylw arall (o leiaf yn ymarferol, *practically*) nad yw Duw yn holl-gariad. "Yr heresi mwyaf," meddai Cecil, "yw diffyg cariad." Yr heresi dduwinyddol fwyaf yw yr un sydd yn priodoli i Dduw ddiffyg cariad. Dywedodd Mr. Moody unwaith y carai ar brydiau fyned ar draws y byd i bregethu "Duw Cariad yw" a dim arall. Trueni na fuasai.

YN ei siars ddiweddar (Awst 15) mae Esgob Llandaf yn cyffwrdd â phwnc y dadgyssylltiad, ac y mae yn hytrach yn beio Annghydffurfwyr, ac yn dywedyd nad ydynt fel eu cyndeidau. Mae wedi clywed, ar awdurdod dda, fod y cyfnodolion presenol yn pleidio dadgyssylltiad, ac ystyria ei bod yn bryd i fod yn barod i amddiffyn yr Eglwys.

DYWED y *Birmingham Gazette* am wleidiadaeth ryddfrydig:—"Y mae yn awr yn ymddangos yn tynu at ei therfyn . . . Fe edy ei chwymp le i gyfundrefn well." Dywed Golygydd y *Christian Life*," Am yn agos hanner canrif yr ydym wedi sylwi ar amcanion rhyddfrydwyr, y rhai ydynt wedi ymddangos i ni bob amser yn syml, ac fel yn delio cyfiawnder i'r holl bleidiau yn y wladwriaeth. Beth fydd y 'gyfundrefn well' yn amcanu ato?"

PAPYR y blaid isel-eglwysig yw y *Record*, ac y mae y syniadau a daenir ynddo yn wahanol i eiddo y *Church Times*, y papyr uchel-eglwysig. Mae y blaid olaf dros ddadgyssylltiad, ond dim dadwaddoliad—hyny yw, dros ddadgyssylltiad er mwyn cael bod at eu rhyddid i daenu eu hegwyddorion Pabyddol, ac yn erbyn dadwaddoliad, er mwyn cael cadw cymmaint ag a allont o'r cyfoeth i'w cynnorthwyo yn eu gwaith. Mae y *Record* dros y *Public Worship Bill*—y ddeddf a basiwyd yn ddiweddar i ddodi Pabyddiaeth yn Eglwys Loegr i lawr, ond y mae y *Church Times* yn ei erbyn. Rhydd y *Catholic Times* ei gyfarwyddiadau mewn perthynas i'r etholiad, ond y maent yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eiddo y *Record*.

A YDYW pobl Ffrainge dan eu gweinyddiaeth newydd yn myned i ddechreu ar yrfa o heddwch? A ydyw gogoniant milwrol, y *la gloire* yr arferent fod mor hoff o hono i gael ei ddodi o'r neilldu! Dyma eiriau dau arweinydd o'r blaid Werinol: "Heddwch" meddai Victor Hugo, "sydd wedi ei wneuthur yn *order of the day*. Dywedwn wrth y rhai a gashant heddwch 'Oni wyddoch ystyr geiriau Crist, cerwch eich gilydd.' Geiriau ydynt dros ddadfyddino cyffredinol." Ac meddai Gambetta, "sefydlwch ysgolion, cerwch 'eich gilydd, ymunwch a chymdeithaswch â'ch gilydd, darllenwch a dysgwch eich hunan, ac fe ddiflana y gelyniaeth sydd rhwng un dosparth a'r llall, a bydd darfod am byth ar hen weddillion y gorpheniant."

MAE Mr. Mackonochie, yr offeiriad uchel-eglwysig, trwy *flaw* yn y ddeddf neu rywbeth cyffelyb, fel Tooth o'i flaen wedi ei ryddhau, a gall fyned yn y blaen yn awr fel cynt a'i ystranciau Pabyddol, er gwaethaf y *Public Worship Regulation Act.*

MEWN atebiad i'r waedd am ragor o esgobion dywed y *Record* fel hyn:—"Yn sicr gallwn ddywedyd po leiaf fyddo o honynt mai goreu i gyd fydd i Gristionogaeth, i'r byd, ac i'r eglwys broffesedig. Mae pobl Prydain—eglwyswyr ac annghydffurfwyr yn gyffelyb—yn Brotestaniaid cryfion o galon, ac nid ydynt yn teimlo fod esgobion fel corff, yn gyfeillion i Brotestaniaeth. Paham gan hyny yr ychwanegir atynt.—*Rock*, August 16.

YR ydys wedi gwneuthur twrw mawr yn y papyrau Seisnig mewn perthynas i afiechyd a marwolaeth Mr. George Payne. Talai mawrion ein gwlad sylw mawr iddo. A phwy oedd! medd y darllenydd. Wel, dyn hoff iawn o hela, mae yn debyg, a llwyddianus iawn i ddifyru ei hunan a difyru ereill hefyd. Dywed y *Christian Life*, "Yr ydym wedi gweled beddargraff, "Dilynodd gyfiawnder." Priodol iawn i Mr. Payne fydd 'Dilynodd y cwn hela.'"

MAE 600,000 o ranau o'r Ysgrythyr Sanctaidd wedi eu dosparthu mewn 22 o wahanol ieithoedd, yn *Bible Stand* yr Arddangosfa yn Paris.

O'R rhifedi mawr a fuont farw yn yr Unol Daleithiau oddiwrth *sun stroke*, yn ystod poethder yr haf diweddaf, yr oedd mwyafrif mawr yn rhai a ddelient yn helaeth yn y gwirodydd poethion.

MAE Mr. George Parker Bidder, F.R.S., yr *Engineer* enwog, wedi marw. Ganwyd ef yn 1800. Adwaenid ef yn moreu ei oes fel y "Calculating Boy." Dygwyd ef gyntaf i sylw y cyhoedd gan y Parch. Jacob Isaac, y pryd hwnw o Moretonhampstead, ond cyn hyny o Graigyfargoed, perthynas agos i'r Isaacs o Bedwellty.

BYDD yn dda gan lawer o'n darllenwyr glywed fod Mr. George Evans, M.A., Caerfyrddin (yn awr o Goleg Manchester New, Llundain), wedi enill yr Herbert Scholarship. Yr ydym wedi clywed fod yr Ysgoloriaeth yma yn werth £110 yn y flwyddyn, ac yn ddaladwy am dair blynedd.

YN Tilton, yn Leicestershire, yn ddiweddar, gwrthododd y ficer gladdu plentyn oedd heb ei fedyddio, a darfu iddo rwystro canu yr emyn, "Yn ddyogel yn mreichiau yr Iesu" (Safe in the arms of Jesus). Adroddir yn y Beibl am rai a geisiasant rwystro dwyn plant bychain at yr Iesu. O'r braidd y gallasem ddysgwyl i offeiriad, un yn proffesu ei hunan yn weinidog Iesu Grist, efelychu yspryd y rhai hyn.

DYWEDIR yn y newyddiaduron fod y *Committee* sydd wrth y gorchwyl o ddiwygio cyfieithad y Testament Newydd i'r Saesneg o'r diwedd bron a chwblhau y gwaith. Maent wedi myned dros yr oll ddwy waith, ac y mae ganddynt i gyffwrdd â rhai darnau yma a thraw etto. Wedi hyny, bydd yn myned dan sylw *Committee* yn yr Unol Daleithiau, ac wedi i awgrymiadau y *Committee* hwnw fyned dan sylw y *Committee* gwreiddiol gartref, dysgwylir i'r llyfr gael ei gyhoeddi. Dechreuodd y cwmni ar eu gwaith yn Mehefin 1870, maent wedi cyfarfod 85 o weithiau, ac wedi treulio 337 o ddyddiau wrth eu gorchwyl. Rhif y cwmni yw 24, ac mae'r *average attendance* wedi bod yn 15.

DYWEDIR mai pwlpudau yr Eglwys Sefydledig oedd yr unig rai yn Llundain lle na wnaethpwyd cyfeiriad dydd Sul, Rhagfyr 15fed, at farwolaeth y Dywysoges Alice. Nid oedd gan yr offeiriaid yr un weddi yn barod, ac nid yw y rhai mewn awdurdod yn credu y gall offeiriad barotoi, ac nid oes hawl ganddo i weddio ond yn ol y cynllun a'r geiriau sydd wedi eu rhagbarotoi iddo gan y rhai mewn awdurdod. Dyma yw ffrwyth eglwys sefydledig.

Marwgofion.

Rhag. 2il, yn 38 mlwydd oed, Elizabeth, anwyl briod Mr. Samuel Davies, Rhiwsonganol, plwyf Llanwenog, Sir Aberteifi. Ni bu yn glaf ond dros dymhor byr—rhyw ychydig dros bythefnos. Wedi geni merch, nis adferodd ei nerth, ond gwanhaodd yn gyflym hyd nes y gwelodd y Tad mawr yn ddoeth ei chymmeryd ato 'i hun. Goroesodd yr un fechan hi hyd ddydd ei hangladd, ac yna diangodd hithau ar ol ei mam i

hinsawdd mwy tyner, ac at gymdeithas mwy santaidd. Y dydd Iau canlynol, claddwyd y fam a'i baban yn yr un bedd yn mynwent Eglwys y plwyf, a gweinyddwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, a darllenwyd y gwasanaeth arferol yn yr Eglwys gan y Parch. Mr. Jones, y Curad. Fel hyn rhoed i orwedd un ag yr oedd gair da iddi gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Y Duw mawr a nertho ei phriod cariadus a'i chwech plentyn anwyl i ddal o dan yr ymweliad, gan ddweyd, yr Arglwydd yw Efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg.

Rhagfyr 9fed, o'r Darfodedigaeth, yn 24 oed, bu farw Rachel Tegg, ger Corrig, Llandyssul. Claddwyd hi yr 11eg canlynol yn Pantydefaid. Gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Penderfynwyd fod y bregeth angladdol i gael ei thraddodi yn Pantydefaid y dydd Sul cyntaf ond un ar ol y gladdedigaeth.

Rhagfyr 9fed, David, unig blentyn John ac Anne Davies, Pantydefaid, o'r *Scarlatina*, yn 3 mlwydd oed. Claddwyd ef yr 11eg canlynol, yn mynwent yr Independiaid yn Carmel. Pregethodd y Parch. T. T., Pantydefaid, ar yr achlysur.

Rhagfyr 19eg, yn 94 oed, John Williams, Royal Oak, Porthcawl. Yr oedd yr hen (henaf yn y plwyf) gyfaill diniwed a da ei ddymuniadau hwn at bawb, wedi cael ei analluogi gan fethiant teg i fyned allan o'i dy am rai wythnosau cyn cael ei symmud o blith y byw at y meirwon, a llawer o flynyddau cyn hyny, yn gwbl analluog i ddim braidd ond eistedd yn y cornel, rhoi tro o amgylch y trothwy, a gorwedd ar ei wely. Ni ddyoddefodd nemawr o ddim pwys afiechyd hyd o fewn rhyw fis i'w ymddattodiad. Gadawodd ar ei ol un mab, Mr. Henry Williams, a dwy ferch. Yr oedd ei angladd, yr hon a gymmerodd le ar y 23ain, yn un lluosog iawn, ac yn gynnwysedig o berthynasau a chyfeillion o bell ac agos. Gweinyddwyd yn y ty gan Mr. Lloyd, Cwmbach, a rhoddwyd y pridd i'r pridd yn mynwent Eglwys Trefnewydd.

Barddoniaeth.

AETH SHON RYW DRO I DALU'R RHENT.

'Roedd Shon yn byw yn Hafod Gwent,
Ac aeth rhyw dro i dalu'r rhent,
Am na cha'i gyfle ar y tren
A bod ei ferlyn yn lled hen,
Cychwynodd Shon yn "foreu bach"
I'w cherdded hi â chalon iach.
Pell, pell y daith, twym iawn yr hin,
Sychedig teimlai Shon a blin;
Cael hamdden fach efe a drows
Ger hanner ffordd i'r "Half-Way-House,"
A galwodd *bint* gan modryb Gwen,
Ac yfodd hwnw ar ei ben.
Drwy wlychu'i geg, nid boddio blys,
Meddyliai Shon y sychai'r chwys.
Mewn awel fwyn eisteddai'n ol
Gerllaw y drws ar ryw hen stol,
A phan yr ail *bint* a wnai gael,
Fe glywai ddadleu hynod wael.
Rhwng teiliwr llarpiog gwael ei rân
A chigydd meddw ger y tân.
Dywedai Shon, "Erioed o'r blaen
Ni chlywais ddau mor ffol a rhai'n."
Ond etto i gyd, rhwng llwnc a llwnc,
Fe dalai sylw mawr i'w pwnc.
Y pummed *pint* gan Gwen a gai,
Ac wrtho'i hun dywedyd wnai,
"Nid y'nt yn wir yn llawn mor ffol
A chredwn gynt," ac aeth â'i stol
Tuag at y tân, ac yn y man
'N eu ffwlbri frwd cymmerai ran;
'Nol cwympo'n gyntaf dan ei fai
Am alw ffyliaid ar fath rai.
A chredai fel pob meddw dall
Na chlywodd ddau erioed mor gall.
Cwmniaeth hyfryd oedd hi 'nawr,
Y tri am mwya'u mwstwr mawr.
(Nid oedd *stop tap* pryd hyny'n bod
Ceid cwrw tra y parai'r god.)
Fe yfai'r tri fel tri hen ffrynd
Nes bu i'r rhent i gyd gael myn'd,—
Cael myn'd am gwrw'r 'Half-Way-House,'
A'r *spree* yn dristwch i Shon drows,
Yn dristach, os nid callach dyn
Yn bwyllog holai Shon ei hun,
"Ai'r cigydd tew, neu'r teiliwr ffraeth,
Drwy yfed ddaeth yn gallach?
Neu mi, 'nol yfed mwy nâ mwy
Aeth gyda hwy yn ffolach?"

Rhyw wers neu ddwy gwnawn yma gael,
Nid da rhy hael ar gwrw ;
Barn sobr, sicrach yw'n y carn,
Na byrbwyll farn y meddw.
Cyn yfed dim gwell talu'r rhent
A boddio'r *Agent* craffus,
A pheidio symmud byth ein stol
At feddwon ffol gwastraffus.

Aberaman. DAN HUGHES.

Y PREN ALMON.

Blodeuodd y pren almon,
Mae'r gwanaidd flodeu gwynion
I mi'n arwyddo
Fod gwraidd y pren yn darfod
A'r bedd a'i ddorau'n barod
I'm derbyn iddo ;
Llesgau mae'm natur a gwanhau,
Gwnaeth anadl byrach
Im' dramwy'n drymach,
Mae'n amlwg bellach
Nad allaf hir barhau :
Fe dduodd haul fy nyddiau,
Nos angeu sy'n neshau :
'Nol ffoi o'm ffun bydd rhaid fy rhoi
Mewn cell i'm cuddio,
Nes llwyr falurio
'N yr anedd hono
Pridd tew fydd yno i'm toi ;
Nes delo Crist fy mrenin,
Trwy'n dyffryn i'm deffroi.

ANAD.

O ARWAIN FI.

Tywyll ac unig ydyw'r ffordd,
O rho dy law, fy Nhad,
I'm tywys trwy yr anial dir
I'r lan i'r heulog wlad.

O, arwain fi lle mynech Di,
Ond rho im' ddyfroedd byw ;
A phan fo'r storm o amgylch im'
B'wyf dan dy aden wiw.

Boed imi ddeall gweddi'n iawn,
O Arglwydd, dysg Di fi
I fyw a marw, yna gwnai,
O Dad, fy arwain i.

Yn angeu, cymmer Di fy llaw,
I'm dwyn trwy'r afon ddu,
I'r wlad lle mae tragwyddol hedd,
I blith y nefol lu.

Porthcawl. TITUS LLOYD, Junior.

GOBAITH.

Dymuniad hoff a'm gwna i'n llon,
Yw Gobaith, chwery tan fy mron,
Try'r dywyll nos yn oleu dydd,
Melysa 'mywyd gwael trwy ffydd,
Mae'n ddrych i wel'd daioni'n stor,
Mae'n angor mewn terfysglyd for,—
Sidanaidd edyn f'enaid yw,
I'm dwyn i'r nefoedd wen i fyw.

ANAD.

LLINELLAU CYSURLAWN

I Mr. John Davies, *Lock & Key*, a'i briod, ar ol eu hunig fab yr hwn a hunodd yn ddiweddar.

O dad a mam, na wylwch mwy,
Mae'n iach o gleisiau marwol glwy';
Er teimlo hiraeth dan y fron
Ar ol ei lân gyfeillach lon.

Ond Duw a'i rhoddodd i chwi'n rhwydd,
Dros 'chydig bach i fyw'n eich gwydd ;
A Duw a'i cym'rodd yn ei bryd
Rhag myrdd o waeau beiau'r byd.

DANIEL GLOFF.

BEDDARGRAFF ETTO I'R UN.

'Nawr dyma'r fan mae du oer fedd,
Un dreuliodd fywyd hyfryd hedd ;
Ei Ner a'i cyfyd i ail fyw,
Yn ngoleu dydd angylion Duw.

DL. GLOFF.

GWEDDI O'R GALON.

O Lyfr y Ficer.

Duw ni phrisia weddi'r tafod,
Heb y galon a'r gydwybod ;
Gweddi'r enaid prudd a'r yspryd,
O flaen Duw sydd aberth hyfryd.

Cais â'r genau, cais â'r galon,
Un o'r ddau sydd lai na digon ;
Cydia'r genau gyda'r yspryd
Hyny bair gynghanedd hyfryd.

Gwell yw'r galon heb y genau,
I weddio ambell weithiau,
Nag yw'r genau heb y galon,
Gweddi o'r fath sydd weddi ffinion.*

* Ystyr *ffinion* yw adgas, annerbyniol.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

J. L., Dowlais; E. J., Swyddffynon; Eiddil Cynon; D. E., Troedyrhiw; J. J., Hendryd; D. L. M., Brynaman; D. E., Cwmdu; P. R., Cardiff.

☞ Y mae yn dra thebyg, drwg genym ddywedyd hyny, a chredwn y bydd yn ddrwg gan lawer o'n darllenwyr wybod hyny, fod peth tebygolrwydd y bydd yn rhaid i'r YMOFYNYDD fyned i orphwys gyda'r rhifyn nesaf. Ceir hyspysrwydd pellach etto.

LLYFR I'R YSGOL SUL.

MEWN cydsyniad â'r cais a welir ar tudalen 229, yr wyf yn barod i ddwyn allan ail argraffiad o'r llyfryn crybwylledig, os caf gefnogaeth ddigonol. Cynnwysa Llyfr Hughes, Wrexham, 16eg o dudalenau, a gwerthir ef am geiniog; cynnwysa'r llyfr uchod 32ain, ac felly bydd yn werth 2 geiniog. Os galluogir fi i argraffu 3000, gallaf werthu 100 ac uchod yn ol 12 swllt y cant.

Anfoner *Orders* yn ddioedi at y Golygydd.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

GALW I MEWN Y CYFRANIADAU.

Dymunir yn barchus ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y capel newydd, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i *Mr. John Jones, Solicitor, Llandyssul*, mewn *Cheques* neu *Post Office Orders*. Derbynir hefyd bob cyfraniadau ychwanegol yn ddiolchgar. Mae y capel yn prysur fyned rhagddo, ac er ys wythnosau dan dô.

EDUCATION.

CLIFTON STREET, ABERDARE: R. J. JONES, M.A., MASTER.

Vacancies for three boarders. Terms on application.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. R. J. Jones, Clifton Street, Aberdare.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,*—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Myrtle Cottage,
Aberdare.